



**PROSIECT YMCHWIL
SAFLEOEDD
BWYD A DIOD
LLYWODRAETH CYMRU**



PROSIECT YMCHWIL SAFLEOEDD BWYD A DIOD LLYWODRAETH CYMRU

EBRILL 2016

LLYWODRAETH CYMRU

LLUNIWYD GAN WAVEHILL AC ADAS

CYSYLLTIADAU ARWEINIOL:

MARK WILLIS
ALISON LEEDER

Mark.Willis@wavehill.com
Alison.Leeder@adas.co.uk



Ynglŷn â'r ddogfen hon:

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canlyniadau astudiaeth gwmpasu sy'n archwilio i ba raddau mae cynllunio a diffyg cyfleoedd ehangu yn rhwystr i botensial y sector Bwyd a Diod yng Nghymru i ehangu. Mae'n edrych ar achlysuron lle bu i gynllunio alluogi twf ac ar astudiaethau achos i archwilio'r ffactorau a fu o gymorth i fusnesau bwyd llwyddiannus yng Nghymru i ehangu'n gyflym. Mae'r astudiaeth yn ystyried faint o gymorth sydd i dyfu ac yn archwilio astudiaethau achos i ddatblygu argymhellion ar gamau gweithredu y gellid eu cymryd i helpu'r sector i gyflawni lefelau uchel o dwf yn y dyfodol.

Canllaw rhyngweithiol yw hwn ac mae'n cynnwys hyperddolenni i wybodaeth bellach drwyddo.

Cynnwys

Canfyddiadau Allweddol.....	4
1. Cyflwyniad	5
2. Y Sector Bwyd a Diod	8
3. Cymorth i'r Sector Bwyd mewn Dogfennau Polisi Cynllunio.....	12
Y Cyd-destun Deddfwriaethol.....	13
4: Y Broses Ymgeisio am Ganiatâd Cynllunio i Fusnesau'r Sector Bwyd a Diod	30
5. Y Sector Bwyd a Diod: Safbwynt Cynllunwyr	49
6: Y Broses Gynllunio o Safbwynt Busnesau Bwyd a Diod	59
Cyfathrebu yn y Broses Gynllunio	64
Nodi Safleoedd Addas.....	67
Ddefnyddio Iaith Symlach.....	68
Seiaith	69
Materion Adeiladu	69
7. Casgliadau ac Argymhellion	70
Atodiad 1: Newidiadau i Ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol.....	70

Canfyddiadau Allweddol

- Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth benodol i Safleoedd Gradd Bwyd.
- Nid yw'r rhan fwyaf o gynllunwyr sy'n seiliedig mewn Awdurdod Lleol yn rhoi ystyriaeth benodol i Safleoedd Gradd Bwyd yn ardal eu Hawdurdod Lleol. Mae'r ffocws ar hwyluso unrhyw safle cyflogaeth sy'n creu swyddi a buddsoddiad.
- Mae Safleoedd Gradd Bwyd yn aml yn galw am safleoedd ar wahân oherwydd y posibilrwydd o halogi bwyd a materion glendid.
- Y mae tystiolaeth anecdotaidd o gyfweiliadau yn yr adroddiad hwn sy'n awgrymu bod angen rhagor o Barciau Busnes neu Glystyrau Gradd Bwyd yn benodol.
- Cymharol anffurfiol yw'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ar hyn o bryd (er bod disgwyl i hyn newid ym mis Awst 2016). Mae'r cyfweiliadau â swyddogion cynllunio a busnesau yn awgrymu bod ymgynghori cyn ymgeisio yn werthfawr gan y gall arbed amser ac adnoddau drwy nodi materion technegol a chyhoeddus a mynd i'r afael â hwy.
- Caiff mwy o ddeialog, ond deialog sy'n llai ffurfiol yn dechnegol, ei hannog rhwng cynllunwyr lleol, busnesau a grwpiau busnes, swyddogion datblygu a thrigolion a chymunedau hefyd lle y cânt hwy eu heffeithio.
- Teimla'r cynllunwyr fod digonedd o safleoedd cyflogaeth ar gael yn arbennig ar hyd coridor yr M4 y gellid eu defnyddio gan fusnesau'r sector Bwyd a Diod; teimla busnesau bod diffyg Safleoedd Gradd Bwyd sy'n barod i'w defnyddio.

1. Cyflwyniad


Cyhoeddwyd Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2014. Ymrwma'r Cynllun Gweithredu i *'dyfu'r sector Bwyd a Diod gan 30 y cant i £7 biliwn erbyn y flwyddyn 2020'* (para 1.6).

Yn gyffredinol, mae llawer o ffyrdd y gall y sector dyfu a gall rhai mathau o 'dwf' gael eu cyflawni drwy gynyddu effeithlonrwydd neu gynyddu cynhyrchiant oddi mewn i safleoedd presennol. Ond i gyflawni twf o 30 y cant yn y sector erbyn 2020, y mae'n glir y byddai angen cynnydd yn arwynebedd y tir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd a chynnydd yn nifer y safleoedd sydd ar gael sydd o radd addas i brosesu bwyd.


I ddatblygu i fod yn fusnesau mawr a/neu aeddfed, mae llawer o fusnesau'r sector Bwyd a Diod yn mynd drwy'r camau canlynol:

1. datblygu busnesau newydd bach 'yn y gegin'
2. symud i'r safle cyntaf (fel arfer gydag aelodau cyntaf o staff)
3. ehangu oddi mewn i'r safle cychwynnol neu i safle felly
4. adeiladu safle gradd bwyd pwrpasol.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y bydd angen cais cynllunio ar y rhan fwyaf o fusnesau Bwyd a Diod sy'n ehangu a llawer o fusnesau newydd. Gallai fod angen cais cynllunio ar fusnes newydd am y byddai'n golygu 'newid' defnydd. Er enghraifft, petai rhywrai'n dechrau cynhyrchu cynnyrch bwyd yng nghegin eu cartref eu hunain, gallai fod arnynt angen cais cynllunio i 'newid' defnydd yr adeilad o fod yn annedd breswyl i fod yn safle busnes. Yn yr un modd, petai busnes yn ehangu gan olygu bod angen safle mwy o faint neu newydd, mae'n debygol y byddai angen caniatâd cynllunio. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu bod angen i bob busnes fod yn arbenigwyr ar y system gynllunio, ond y mae angen i fusnesau fod yn ymwybodol o'r peryglon ac at bwy i droi i gael cymorth pellach (boed hyn i'w ddarparu gan y sector cyhoeddus neu gan ymgynghorydd cynllunio). Yn yr un modd, rhaid i Awdurdodau Cynllunio sicrhau bod digon o dir ar gael i ganiatáu twf a'u bod yn mynd i'r afael â cheisiadau cynllunio yn gadarnhaol ac effeithlon er mwyn hwyluso twf.



Ffigur 1.1: Siart Llif yn Dangos Camau Busnes a'r Angen am Ganiatâd Cynllunio



Mae'r astudiaeth gwmpasu hon yn datblygu gwybodaeth llinell sylfaen o'r system bresennol i edrych ar sut mae'r sector Bwyd a Diod yn rhyngweithio â'r system gynllunio ar hyn o bryd, i ddeall unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd ar gyfer twf yn y sector. Roedd yr ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- dadansoddi data'r Asiantaeth Safonau Bwyd i lunio map sy'n dangos dosbarthiad a lleoliad cyffredinol safleoedd gradd bwyd yng Nghymru
- adolygu polisiau cynllunio yng Nghymru gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol (a/neu Gynlluniau Datblygu Unedol lle y maent yn berthnasol) ar gyfer y 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol, polisiau cenedlaethol a rheoliadau
- adolygu 57 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau'r sector Bwyd a Diod ledled Cymru
- cyfweiliadau â swyddogion cynllunio o 13 o Awdurdodau Cynllunio Lleol
- cyfweiliadau astudiaethau achos manwl ag 20 o fusnesau
- dau gyfweiliad â rhanddeiliaid allweddol, gyda Swyddog Datblygu Busnes ar gyfer y Sector Bwyd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, a'r Ganolfan Fwyd yn Horeb.

Mae canlyniadau'r astudiaeth wedi'i chyflwyno yn yr adroddiad hwn, mewn pum dogfen astudiaeth achos ar wahân ac mewn taflen ffeithiau.

2. Y Sector Bwyd a Diod



Sector Bwyd a Ffermio yw un o naw o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys amaethyddiaeth, cynhyrchu ar y fferm a gweithgynhyrchu bwyd.

Mae'r gadwyn gyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnwys cynhyrchu cynradd, gweithgynhyrchu, manwerthu, cyfanwerthu ac arlwygo dibreswyl.

O ran y prif ffigurau, mae'r gadwyn gyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru yn cyflogi 223,100 (2014) o bobl, mewn 26,765 o unedau busnes (2015), gyda throsiant o £16.8bn (2013).

Fodd bynnag, y mae'r sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, y mae llawer o'r adroddiad hwn yn berthnasol iddo, tua 10% o faint y sector cyfan. Mae angen safleoedd gradd bwyd ar y rhan hon o'r sector ac am resymau diogelwch bwyd a glendid mae ei gofynion yn wahanol iawn i amaethyddiaeth, manwerthu, cyfanwerthu neu arlwygo.

Mae'r prif ddata isod yn well ffordd o gynrychioli'r adroddiad hwn:

Mae'r Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru¹:

- yn cyflogi **22,100 o bobl** (2014)
- mewn **555 o unedau busnes** (2015)
- gyda **throsiant o £4.8bn** (2013) a
- **Gwerth Ychwanegol Gros o £1.45bn** (2013)
- **174 o enillwyr Gwobr Great Taste** (2015)
- **4 enw bwyd wedi'u hamddiffyn** – Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI, Tatws Cynnar Sir Benfro PGI a Halen Môn PDO (2015).

¹ Bwyd a Diod Cymru; Llywodraeth Cymru gan Brookdale Consulting 2016

Mae'r rhan hon o'r sector yng Nghymru yn cynrychioli:

- 1.7 y cant o holl gyflogaeth Cymru
- 0.5 y cant o gyfanswm nifer yr unedau busnes yng Nghymru
- 4.6 y cant o drosiant yr economi ac eithrio busnesau ariannol yng Nghymru. (Cyfartaledd y Deyrnas Unedig yw 2.5 y cant).
- 5.3 y cant o drosiant sector bwyd a diod y Deyrnas Unedig

Mae 68% o'r unedau busnes gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 20 o fusnesau mawr yn y sector, ac yn cyflogi mwy na 250 o bobl. Mae'r lefel sgiliau yn is na lefel sgiliau'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl data a gyfrifwyd o'r Arolwg Busnes Blynnyddol, mae gweithgynhyrchu bwyd a diod wedi cynyddu 54 y cant o ran Gwerth Ychwanegol Gros yn ystod y naw mlynedd diwethaf (2005 i 2013).

Lleoliadau Allweddol ar gyfer y Sector Bwyd a Diod

Mae lleoliadau deunyddiau crai, prosesu a dosbarthu bwyd a diod i'w cael led-led Cymru ac mae mapio'r rhain y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Ond y mae'r lleoliadau canlynol yn enghreifftiau o leoliadau nodedig i'r sector.

- **Canolfan Diwydiant Bwyd Zero2Five, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.** Mae'n darparu cymorth technegol, gweithredol a masnachol i fusnesau bwyd i'w galluogi i gystadlu yn fwy effeithiol. Mae yn y Ganolfan gyfleusterau modern sy'n cynnwys: ystafelloedd synhwyrau'r defnyddwyr, pedwar safle gwaith maint peilot, cegin ddatblygu a chegin ymchwil defnyddwyr.
- **Canolfan Technoleg Bwyd, Llangefni.** Sefydlwyd y ganolfan ym 1999 ac mae'n gartref i dair neuadd brosesu a chegin brofi sydd â'r nod o ychwanegu gwerth i gig, pysgod, cynnyrch llaeth a garddwriaeth. Mae yno labordy ar y safle i ddarparu canlyniadau manwl gywir ar gyfer labeli a gwybodaeth maeth. Mae'r cyfleusterau hyn yn caniatáu i'r cleient weithgynhyrchu cynnyrch ar raddfa ddiwydiannol fach i safleoedd manwerthu a defnyddwyr. Mae'r cyfleusterau yn helpu cwmnïau newydd i brofi'r galw yn y farchnad cyn buddsoddi mewn offer a chymeradwyaeth Swyddog Iechyd yr Amgylchedd.
- **Canolfan Bwyd Cymru, Horeb.** Sefydlwyd ym 1996 yn ganolfan technoleg bwyd sy'n cynnwys gwasanaethau cyngor ac ymgynghori, adeilad ymchwil a datblygu ac unedau wedi'u dylunio'n bwrpasol i safonau gradd bwyd.
- **Parc Bwyd Cross Hands, Bae Abertawe.** Parc busnes i'r diwydiant bwyd a'r ganolfan ragoriaeth ddynodedig gyntaf ar gyfer technoleg bwyd yng Nghymru. Er bod nifer o barciau diwydiannol sydd â nifer gymharol uchel o fusnesau'r sector Bwyd a Diod, dyma'r unig un yng Nghymru a nodwyd yn y gwaith ymchwil sydd yn benodol ac yn gyfan gwbl ar gyfer y sector yng Nghymru.

Data yr Asiantaeth Safonau Bwyd: Cig a Physgod

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am ddyletswyddau arolygu safleoedd cymeradwy, gan gynnwys rheoleiddio safonau hylendid ar gyfer safleoedd cig a physgod. Mae'r Asiantaeth yn cadw data ar leoliad pob 'safle cymeradwy' ledled Cymru yn y sectorau canlynol:

- carnolion domestig: er enghraifft gwartheg, defaid, moch a cheirw
- dofednod a lagomorffiaid: er enghraifft: ieir, tyrwyn, gwyddau, hwyaid, cwningod ac ysgyfarnogod
- anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio ac anifeiliaid hela gwyllt
- molysgiaid deufalf: er enghraifft cregyn cylchog, cregyn gleision, sgolpiau a choccos
- cynnyrch pysgodfeydd
- cynnyrch llaeth
- wyau
- cynnyrch cig cyffredinol a'i baratoi
- arall: yn cynnwys gweithgareddau megis yr hyn a wneir yn PB Gelatins UK.




Mae'r data yn cwmpasu 326 o safleoedd gwahanol ac mae ar gael [fan hyn²](#).

Derbyniwyd, trefnwyd a mapiwyd y data hwn i roi trosolwg o leoliad yr is-adran hon o'r sector Bwyd a Diod. Mae Ffigur 1.2 yn dangos nifer y safleoedd ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, ac mae'r bariau yn nodi lleoliadau oddi mewn i'r ardaloedd hyn. Ni fydd hon yn rhestr gynhwysfawr am y bydd microfusnesau a fydd bob amser yn is na throthwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd o ran yr hyn sy'n ofynnol i gael eu cymeradwyo ac mae eithriadau yn berthnasol i rai mathau o safleoedd. Fodd bynnag, y mae'n rhoi trosolwg da o'r lleoliadau allweddol ar gyfer y sectorau hyn ledled Cymru.

Mae Ffigur 1.2 yn dangos canolfannau allweddol yng Nghasnewydd, Caerdydd, Abertawe, Hwlfordd, Wrecsam a Phwllheli. Mae Parc bwyd Cross Hands a Chanolfan Bwyd Cymru hefyd wedi arwain at glystyrau, sydd wedi'u dangos ar y map.

² <https://www.food.gov.uk/enforcement/approved-premises-official-controls/sectorrules>

Ffigur 1.2: Safleoedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru



Lluniwyd y map hwn yn Saesneg, ac yn anffodus nid oes modd darparu cyfieithiad Cymraeg.

3. Cymorth i'r Sector Bwyd mewn Dogfennau Polisi Cynllunio

Cyflwyniad

Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r awdurdod neu'r cyngor lleol sydd â'r pŵer yn y gyfraith i weithredu swyddogaethau cynllunio statudol ar gyfer ardal benodol. Yn bresennol, mae gan Gymru 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol, sef 22 o awdurdodau unedol a thri Pharc Cenedlaethol. Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd y sector Bwyd a Diod. Gallai ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol newid yn y dyfodol; gweler Atodiad 1.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, cafodd polisiâu a deddfwriaeth cynllunio cyfredol eu hadolygu ar lefel genedlaethol ac awdurdod lleol i archwilio:

- sut gallai newidiadau a gyflwynwyd gan y Deddfau Cynllunio a Llesiant ddylanwadu ar y sector Bwyd a Diod
- i ba raddau mae polisiâu cenedlaethol a lleol cyfredol yn cynorthwyo'r sector
- gwahaniaethau yn nulliau gweithredu gwahanol Awdurdodau Cynllunio Lleol, ac
- unrhyw gamau y gellid eu cymryd i gynyddu cymorth i'r sector mewn polisi cynllunio.

Crynodeb: Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynnwys cefnogaeth gref i ddatblygiadau sy'n hwyluso datblygiad economaidd a chyflogaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi a lleoli tir at ddefnydd cyflogaeth. Mae rhywfaint o gefnogaeth hefyd i ddatblygu amaethyddol, arallgyfeirio gwledig a ffynonellau bwyd cynaliadwy. Fel hyn, gellid dadlau bod cefnogaeth glir i'r rhan o'r diwydiant sy'n seiliedig ar ffermydd. Ond nid oes cyfeiriad uniongyrchol i naw sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru mewn polisi cynllunio cenedlaethol na chefnogaeth glir i'r sector Bwyd a Diod yn ei gyfanrwydd. Mae sectorau twristiaeth ac ynni a'r amgylchedd yn nodedig fel enghreifftiau o sectorau eraill sydd â chefnogaeth fwy clir mewn polisi cenedlaethol.

Mae gweddill yr adran hon yn cwmpasu'r adolygiad hwn.

Y Cyd-destun Deddfwriaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i ymgymryd â datblygu cynaliadwy, llunio amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.



O ran cynllunio, mae Pennod 4 Polisi Cynllunio Cymru³ wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r Ddeddf, saith nod llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r disgrifiad o'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio hefyd wedi'i ddiweddaru. Rhaid i Awdurdodau Lleol weithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae gwneud rhywbeth *yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy* yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn gefnogol i dwf y sector Bwyd a Diod, i'r graddau bod y twf hwn yn hybu un neu ragor o saith nod llesiant.

Mae Ffigur 3.1 yn dangos saith nod llesiant ac enghreifftiau o ffyrdd y gallai'r sector Bwyd a Diod gyfrannu tuag at y nodau hyn.

3 Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru (Rhifyn 8, Ionawr 2016)

Ffigur 3.1: Nodau Llesiant a'r Sector Bwyd a Diod



Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Derbyniodd [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015](#) Gydsyniad Brenhinol ar 6ed Gorffennaf 2015 i 'greu system gynllunio yng Nghymru sy'n addas i'r 21ain Ganrif.' Dyma'r prif ddarpariaethau a allai effeithio ar y sector Bwyd a Diod yng Nghymru:

- Caiff fframwaith cynllunio newydd, sy'n cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ei lunio gan Lywodraeth Cymru erbyn 2019. Petai'r sector Bwyd a Diod yn ymgysylltu â'r broses hon yn gynnar, gallai amcanion i'r sector gael eu cynnwys mewn polisi cenedlaethol.
- Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gydweithio'n agosach, gan gynnwys paratoi sylfaen dystiolaeth ranbarthol a dull safonol o weithredu mewn perthynas â thir cyflogaeth. Cyflwynodd y Ddeddf gynlluniau datblygu is-ranbarthol, ac er nad yw'n dweud pa ardaloedd sy'n debygol o gael eu cwmpasu (disgwylir iddynt gael eu cwblhau yng ngwanwyn 2017), y mae'n debygol o fod yn berthnasol i ardaloedd sy'n fwy o faint nag ôl troed Awdurdod Lleol a'r targed yw iddynt gael eu mabwysiadu erbyn yn 2021. Bydd hyn hefyd yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol, yn benodol o ran nodi safleoedd cyflogaeth strategol.
- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio â'r gymuned ac ymgynghoreion statudol fel mater statudol yn achos ceisiadau am ddatblygiadau penodol (datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol a chynlluniau mawr eraill). Y mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi arweiniad i'r gwasanaethau cyn ymgeisio a gynigir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd

At ddibenion cynllunio, caiff datblygiadau y mae arnynt angen caniatâd cynllunio eu categoreiddio yn ôl 'dosbarthiadau defnydd'. Gallai fod angen caniatâd cynllunio i newid 'defnydd' adeilad, ac mae'r gorchymyn dosbarthiadau defnydd yn nodi categorïau o ddatblygiadau i ddiffinio pryd y bernir bod 'defnydd' wedi newid. Er enghraifft, mae anheddau preswyl yn dod o dan ddosbarth 'C3: Tai Annedd', a byddai cyfleuster prosesu coffi yn dod o dan ddosbarth 'B2: Diwydiant Cyffredinol.'



Felly byddai newid o annedd breswyl i gyfleuster prosesu coffi yn galw am ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn rhesymegol oherwydd efallai na fyddai lleoliad sy'n addas i annedd yn addas i ffatri. Mae rhai newidiadau defnydd yn 'ddatblygu a ganiateir,'⁴ sy'n golygu nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt.

Er enghraifft, byddai newid defnydd o fod yn sefydliad bwyd a diod i fod yn fanc yn newid defnydd, ond ni fyddai angen caniatâd cynllunio am fod y newid yn 'ddatblygu a ganiateir', ond byddai newid o fanc i fwyty yn galw am ganiatâd cynllunio. Y rheswm am hyn yw y gallai newid defnydd o fanc i fwyty arwain at effeithiau lleol megis sŵn, aroglau a thraffig y byddai angen eu hasesu.

Mae Tabl 3.1 yn crynhoi tri chategori tir cyflogaeth a fyddai'n berthnasol i rannau prosesu a dosbarthu y sector Bwyd a Diod. Ond y mae defnyddiau eraill sy'n berthnasol i'r sector, yn arbennig amaethyddiaeth a manwerthu.

Tabl 3.1: Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r isod. I gael mwy o wybodaeth ar gyfyngiadau ac eithriadau, gweler Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (OS 1987 Rhif 764) (Fel y'i Diwygiwyd) a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) (OS 1995 Rhif 418) (Fel y'i Diwygiwyd).		
Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1987	Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1972	Datblygu a Ganiateir
Dosbarth B1. Busnes Defnydd ar gyfer y cyfan neu unrhyw rai o'r dibenion canlynol— (a) fel swyddfa ar wahân i ddefnydd oddi mewn i ddosbarth A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) (b) ar gyfer ymchwil a datblygu cynnyrch neu brosesau, neu (c) ar gyfer unrhyw broses ddiwydiannol, at ddefnydd y gellir ymgymryd ag ef mewn unrhyw ardal breswyl heb niwed i amwynder yr ardal honno am resymau sŵn, dirgrynu, aroglau, mygdarth, mwg, huddygl, lludw, llwch neu raeau	Dosbarth 2 Dosbarth 3	B1 i B8 (hyd at 235 m ²)
Dosbarth B2. Diwydiannol Cyffredinol Defnydd ar gyfer cynnal proses ddiwydiannol ar wahân i ddefnydd oddi mewn i ddosbarth B1 uchod neu oddi mewn i ddosbarthiadau B3 i B7 isod	Dosbarth 4-9	B2 i B1 B2 i B8 (hyd at 235 m ²)
Dosbarth B8. Storio neu Ddosbarthu Defnydd ar gyfer storio neu ganolfan ddosbarthu	Dosbarth 10	B8 i B1 (hyd at 235 m ²)

⁴ O dan Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) (OS 1995 Rhif 418) (Fel y'i diwygiwyd)

Deddfwriaethau Eraill

Mae deddfwriaethau cynradd neu is-ddeddfwriaethau eraill yng Nghymru wedi'u nodi yn Nhabl 3.2.

Tabl 3.2: Deddfwriaeth Gynllunio Berthnasol yng Nghymru

Deddfwriaeth Gynradd	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	Deddf (Sylweddau Peryglus) 1990	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
	Deddf Cynllunio a Digolledu 1991	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004	Deddf Cynllunio 2008
	Deddf Cynllunio (Cymru) 2015		
Is-ddeddfwriaeth Eilaidd	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu) 1991 (OS 1991 Rhif 2794) (fel y'i diwygiwyd)	Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (OS 1992 Rhif 1492) (fel y'i diwygiwyd)	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) (OS 1995 Rhif 418) (fel y'i diwygiwyd)
	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)	

Polisi Cynllunio Cymru


Cyhoeddwyd [Polisi Cynllunio Cymru](#) Rhifyn 8 ym mis Ionawr 2016 ac mae'n nodi polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Y mae Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ategu gan 21 [Nodyn Cyngor Technegol](#) (TAN), Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau, Cylchlythyrau, llythyrau egluro polisi a Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog. Rhoddir ystyriaeth i Bolisi Cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru (gweler isod) pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol yn paratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Polisi Cynllunio Cymru

Nid yw Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio'n benodol at naw sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, ond y mae'n cynnwys adrannau sy'n ymwneud â'r sectorau canlynol:

- **Twristiaeth:** Mae pennod ar 'Dwristiaeth, Chwaraeon a Hamdden' ym Mholisi Cynllunio Cymru sydd, ymysg polisiâu eraill, yn annog darparu a gwella cyfleusterau twristiaeth. Caiff arallgyfeirio mentrau fferm at dwristiaeth ei annog hefyd, ac yn berthnasol i fusnesau'r sector Bwyd a Diod sy'n edrych i gyfuno cyfleusterau twristiaeth gyda safleoedd prosesu (e.e. Halen Môn).
- **Datblygu Economaidd:** Mae'r bennod ar 'Ddatblygu Economaidd' ym Mholisi Cynllunio Cymru yn annog y system gynllunio i gynorthwyo twf economaidd a chyflogaeth mewn ffordd gynaliadwy ac i Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau bod darpariaeth addas o dir ar gael at ddefnydd economaidd.
- **Ynni a'r Amgylchedd:** Mae'r bennod ar 'Seilwaith a Gwasanaethau' ym Mholisi Cynllunio Cymru yn cynnwys adrannau ar ddŵr, gwastraff ac ynni sy'n berthnasol i'r sector hwn.
- **Adeiladu:** Er nad yw'r diwydiant adeiladu yn cael ei gefnogi'n benodol gan Bolisi Cynllunio Cymru, mae'r gefnogaeth gyffredinol i ddatblygu cynaliadwy yn berthnasol i'r diwydiant.

Cyfeirir at 'fwyd' ym Mholisi Cynllunio Cymru yng nghyd-destun gweithredoedd i hybu economi carbon isel sy'n gydnerth yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae adrannau yn y ddogfen ar amaethyddiaeth ac arallgyfeirio gwledig, sy'n berthnasol i ran amaethyddiaeth ddwys o'r sector a datblygiadau ar ffermydd. Ond ni chyfeirir yn benodol at y sector Bwyd a Diod ym Mholisi Cynllunio Cymru. Ceir cyfeiriad at fanwerthu sy'n cwmpasu siopau bwyd ac archfarchnadoedd ar gyrion trefi. Er bod llawer o bolisiâu perthnasol, nid oes unrhyw rai sy'n eglur eu cefnogaeth i'r naw sector blaenoriaeth yn gyffredinol, na'r sector Bwyd a Diod yn benodol.



Mae'r polisïau sy'n fwyaf perthnasol⁵ i'r sector Bwyd a Diod a pholisïau Polisi Cynllunio Cymru yn annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i:

- hybu mynediad at gyflogaeth... manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol (Adrannau 4.6 a 4.7, Penodau 7, 10 ac 11)
- hybu cyfleoedd cyflogaeth hyblyg, parhaus o ansawdd sy'n gadarn yn amgylcheddol (Pennod 7)
- parchu ac annog amrywiaeth yn y gymuned leol (Adran 4.6 a Phennod 7) (para 4.4.3)
- cynnal Adolygiadau o Dir Cyflogaeth (a'i adolygu'n barhaus) i ddarparu tir digonol i fusnesau i ddiwallu anghenion y farchnad, hwyluso adfywio a hybu cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn bwysig, mae Polisi Cynllunio Cymru yn caniatáu safleoedd cyflogaeth i gael eu hystyried oddi mewn i aneddiadau gwledig a nodwyd, neu'n gyfagos, yn ogystal ag ardaloedd mwy diwydiannol (Pennod 7)
- datblygu clystyrau diwydiannol a masnachol
- cydnabod bod seilwaith digonol ac effeithlon yn hanfodol i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru (Pennod 8).

Caiff Awdurdodau Cynllunio Lleol eu hannog i fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol ac adeiladol at geisiadau datblygu sy'n fuddiol i'r economi a rhoi ystyriaeth i:

- *'Nifer y swyddi y disgwylir gweld eu creu neu eu cadw ar y safle, a'r mathau o swyddi;*
- *A fydd y datblygiad yn helpu i wyrddroi'r anfantais economaidd a chefnogi blaenoriaethau adfywio, ac os bydd, i ba raddau, er enghraifft trwy wella cyfleoedd gwaith neu wella'r amgylchedd;*
- *Ystyried cyfraniad at strategaethau gofodol ehangach, er enghraifft twf neu adfywiad ardaloedd penodol' (para 7.6.1).*

Byddai gan geisiadau sy'n dangos yr uchod felly well siawns o gael caniatâd cynllunio.

⁵ Yn dibynnu ar natur y datblygiad, gallai mwyafrif y polisïau ym Mholisi Cynllunio Cymru fod yn berthnasol. Er enghraifft, byddai polisïau trafnidiaeth yn berthnasol wrth ystyried mynediad a gallu'r rhwydwaith ffyrdd lleol i ymdopi â thraffig ychwanegol. Mae'r crynodeb hwn, felly, yn dewis y rhai hynny'n unig sy'n fwyaf perthnasol i'r sector yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chynnig rhestr gynhwysfawr.

Nodiadau Cyngor Technegol

Dyma'r Nodiadau Cyngor Technegol a ystyrir yn fwyaf perthnasol i'r Diwydiant Bwyd a Diod:

- [Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy \(2010\)](#): Darparu cyngor ar economïau gwledig cynaliadwy gan gynnwys arweiniad ar benderfynu ar leoliadau ar gyfer datblygu economaidd newydd.
- [Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio \(2016\)](#): Darparu cyngor ar ddylunio da, gan gynnwys paratoi datganiadau dylunio a mynediad, sicrhau dylunio da a pholisi a chyngor Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ddylunio.
- [Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd \(2004\)](#): Darparu arweiniad technegol ar leoli datblygiadau newydd a pha dystiolaeth sydd ei hangen i asesu canlyniadau sy'n gysylltiedig â llifogydd.
- [Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth \(2007\)](#): Disgrifio sut i integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn ogystal â darparu arweiniad ar sut dylid asesu effeithiau trafndiaeth a'u lliniaru.
- [Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd \(2014\)](#): Arweiniad technegol i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr i weithredu polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd.



Cynllun Gofodol Cymru

Mae [Cynllun Gofodol Cymru – Pobl, Lleoedd, Dyfodol \(2004 a diweddarwyd yn 2009\)](#) yn gosod fframwaith strategol i roi arweiniad i ddatblygu (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, iechyd a thrafnidiaeth) ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, ac mae'n ystyriaeth berthnasol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

Polisiâu Cynllunio Lleol

Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol (sy'n disodli'r Cynlluniau Datblygu Unedol blaenorol) a monitro'r cynlluniau hynny drwy Adroddiadau Monitro Blynyddol sydd i'w hanfon i Lywodraeth Cymru. Dylid wedyn cynnal adolygiad eang o'r Cynllun Datblygu Lleol o leiaf bob pedair blynedd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod polisiâu sy'n pennu sut dylid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac yn neilltuo tir at ddibenion penodol, gan gynnwys tir at ddefnydd cyflogaeth.

Mae'r canlynol yn crynhoi canfyddiadau adolygiad cynhwysfawr o'r holl Gynlluniau Datblygu Lleol (rhai sydd wedi'u mabwysiadu a rhai sydd ar y gweill), Cynlluniau Datblygu Unedol a Dogfennau Cynllunio Atodol, Adroddiadau Monitro Blynyddol ac Adolygiadau Tir Cyflogaeth.



Crynodeb: Polisi Cynllunio Lleol

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynnwys rhai polisiâu ar arallgyfeirio gwledig, amaethyddiaeth, mynediad at fanwerthu bwyd a sylwadau am fwyd a chynaliadwyedd. Ond dim ond pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n cefnogi'r sector Bwyd a Diod yn benodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. O'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd, gallai fod mwy o gydweithredu rhwng adrannau'r Cyngor i yrru cymorth penodol i'r sector Bwyd a Diod yn ei flaen oddi mewn i bolisi cynllunio a chynyddu dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r manteision y gall y sector hwn gynnig.

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi neilltuo swm sylweddol o dir cyflogaeth ledled Cymru ac o ystyried y twf economaidd cymharol araf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, y mae tir sylweddol yn dal i fod ar gael at ddefnydd cyflogaeth. Ond er bod cyfanswm o lawer o dir, ac eithrio Canolfan Bwyd Cymru (Ceredigion) a Pharc Bwyd Cross Hands (Sir Gaerfyrddin), ychydig o dir sydd wedi'i neilltuo i'r sector Bwyd a Diod yn benodol, ac mae diffyg tystiolaeth i werthuso p'un a yw'r tir sydd wedi'i neilltuo yn addas i'r sector. Y mae'n wybyddus bod cyfyngiadau'n bodoli sy'n effeithio ar ba mor gyflawnadwy yw defnydd cyflogaeth ar rai safleoedd a neilltuwyd yn gyffredinol. Nid yw hyn yn golygu nad oes digon o dir ar gael i'r sector, ond y byddai angen mwy o waith ymchwil i asesu p'un a yw'r safleoedd hyn yn addas, neu nad yw'r sector yn ymwybodol ohonynt, neu y gallai fod ystyriaethau eraill.

Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, caiff safleoedd gradd bwyd eu cymryd yn sydyn gan fusnesau'r sector Bwyd a Diod mewn rhai ardaloedd tra bo gofod ar safleoedd presennol ac ar dir a neilltuwyd yn llai poblogaidd (e.e. yn Nhorfaen).

Mae dau esboniad posib am hyn:

1/ Mae safleoedd gradd bwyd yn fwy poblogaidd na thir sydd ar gael i adeiladu safleoedd oherwydd bod cymryd safle presennol yn costio llai neu'n haws nag adeiladu safleoedd pwrpasol; a/neu

2/ Mae safleoedd gradd bwyd gwag wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n fwy priodol i'r diwydiant bwyd na safleoedd cyflogaeth eraill. Gallai hyn fod, er enghraifft, am fod eisoes gan safleoedd gwag y seilwaith angenrheidiol (e.e. trydan, dŵr, carthffosiaeth) neu am eu bod wedi'u lleoli i ffwrdd o halogyddion posibl.

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynorthwyo datblygu sy'n dod â thwf economaidd a chyflogaeth, ond gallant gynnwys polisiâu sy'n annog yn erbyn defnydd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, yn arbennig lle nad oes safleoedd wedi'u neilltuo. Nid yw'r polisiâu hyn yn rhwystrol, ond gallant eu gwneud yn anoddach cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle prosesu bwyd ar fferm, er enghraifft, nag ar safle a neilltuwyd at ddiwydiant. Mae'r ymagwedd hon yn ddealladwy, ond gall fod yn anhawster i'r sector Bwyd a Diod sy'n aml yn hoff o ddatblygu cyfleusterau cynhyrchu yn agos at gyflenwad o nwyddau crai (sydd, yn eu tro, yn aml yn dod o ffermydd).

Yng Nghymru, mae 18 o Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol, ac mae saith (Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Powys, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) heb fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol hyd yma ac yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau o dan y Cynlluniau Datblygu Unedol hyn. Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn a gyflwynwyd yn ddiweddar i'w archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran Llywodraeth Cymru).

Mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn hybu twf economaidd yn eu hardal a pholisïau sy'n hybu datblygu amaethyddol ac arallgyfeirio gwledig. I ryw raddau, y mae cyfeiriad at y sector Bwyd a Diod ym mhob Cynllun Datblygu Lleol yng nghyd-destun manwerthu bwyd a chynaliadwyedd (naill ai o ran diogelu'r cyflenwad bwyd, cynnyrch lleol neu'r ddau). Ond nid oes yr un Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyfeirio'n benodol at brosesu bwyd, a phedwar Cyngor yn unig sy'n nodi'r sector bwyd a Diod yn eu Cynllun Datblygu Lleol fel sector i gynorthwyo twf economaidd. Nid oedd yr un o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol wedi mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol ar gyfer y sector Bwyd a Diod.



Mae Cynllun Datblygu Lleol **Cyngor Gwynedd** a Chynlluniau Datblygu Unedol **Cyngor Sir Ynys Môn** a **Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**, yn nodi cynnyrch amaethyddol a chynnyrch bwyd yn sectorau sy'n darparu 'cyfleoedd economaidd'.

Mae Cynllun Datblygu Lleol **Cyngor Sir Fynwy** yn nodi bod gan y Fenni '*sylfaen gyflogaeth leol sylweddol, gan gynnwys cyfrannau uchel yn gweithio yn y sectorau iechyd ac addysg a phwyslais cynyddol ar gynhyrchu a phrosesu bwyd*' (Cynllun Datblygu Lleol 2014, Paragraff 3.70). Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod pwysigrwydd amaethyddiaeth i economi gwledig Sir Fynwy. Y mae'n cynnwys polisi penodol sy'n ymdrin â lleoli unedau da byw a dofednod maes dwys (Polisi RE5 – Unedau Da Byw / Dofednod Maes Dwys), i sicrhau bod datblygiadau yn cydweddu â'r dirwedd ac nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar amwynderau, gan gynnwys sŵn ac aroglau.

Mae nifer o'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn ceisio hybu twf economaidd o amgylch y diwydiant twristiaeth ac yn hybu'r dreftadaeth naturiol a'r morlin yn eu hardal, ac mae'r nodau hyn yn aml wedi'u hymgorffori yng ngweledigaeth allweddol a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

Caiff canfyddiadau manylach yr adolygiad eu cyflwyno fesul pwnc isod.

Cefnogaeth Eang drwy Bolisi i'r Sector Bwyd a Diod

Y mae cefnogaeth glir drwy bolisi i'r sector gwledig, gan gynnwys datblygiadau'n seiliedig ar ffermydd ac arallgyfeirio gwledig cynaliadwy. Gallai'r polisïau hyn ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch megis prosesu a phecynnu bwyd ond gall maint a graddfa datblygiadau/gweithrediadau fod wedi'u cyfyngu mewn lleoliadau gwledig / cefn gwlad i sicrhau nad oes effeithiau perthnasol. Er enghraifft, mae gan **Wrecsam** a **Pharc Cenedlaethol Eryri** bolisïau cefnogol sydd â chafeatau ar gyfer datblygiadau mewn lleoliadau gwledig.

Mae tystiolaeth mewn rhai Cynlluniau Datblygu Lleol o hybu'r arfer o ddiogelu'r cyflenwad bwyd, cynhyrchu bwyd yn lleol a datblygu rhwydweithiau bwyd cymunedol. Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn nodi mai rhan o'i weledigaeth i'r ardal yw *'i gymunedau fod yn llai dibynnol ar gadwynau cyflenwi allanol gan arwain at ddiogelu'r cyflenwad bwyd ac ynni yn lleol'* (Cynllun Datblygu Lleol para 2.2.1). Y mae polisïau penodol yn hybu cynhyrchu bwyd yn lleol yn ogystal â busnesau newydd sy'n seiliedig ar y fferm ac ar gynhyrchu bwyd, gyda'r bwriad o gefnogi twf economaidd yn lleol. Ond yn gyffredinol, nid yw'r polisïau hyn wedi'u hintegreiddio gyda chefnogaeth gyffredinol i'r Sector Bwyd a Diod yn ei gyfanrwydd, ac yn aml maent yn fwy cefnogol i ochr amaethyddol y sector nag ochr prosesu bwyd.

Ceir ymagwedd wahanol at safleoedd cyflogaeth mewn gwahanol ardaloedd o'r wlad, gan adlewyrchu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau lleol. Yn benodol, ni chaiff twf cyflogaeth ar raddfa fawr ar gyfer datblygiadau mawr eu hannog oddi mewn i'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol, **Eryri**, **Penfro** a **Bannau Brycheiniog**, er bod anogaeth i ddatblygiadau ar raddfa fach, arallgyfeirio ar ffermydd ac ailddefnyddio adeiladau presennol.



Dull o Nodi a Diogelu Tir Cyflogaeth

Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol fod yn gadarn a dangos eu bod wedi neilltuo tir digonol i ddiwallu anghenion busnesau yn eu hardaloedd. I fod yn gadarn, rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ddarparu sylfaen dystiolaeth glir sy'n dangos bod swm, lleoliad a math y tir cyflogaeth a ddarperir yn ddigonol i ddiwallu anghenion yn eu hardaloedd. Er enghraifft, cafodd Cynllun Datblygu Lleol cyntaf **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** ei dynnu'n ôl wedi iddo gael ei archwilio ym mis Mawrth 2012. Un o'r canfyddiadau cychwynnol a amlinellwyd gan yr Arolygydd Cynllunio oedd nad oedd dull y Cynllun Datblygu Lleol o ystyried tir cyflogaeth yn ddigonol i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Mae gan bob Cynllun Datblygu Unedol a Chynllun Datblygu Lleol bolisïau i ddiogelu safleoedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth a chadw tir/adeiladau cyflogaeth presennol. Dim ond os nad yw cadw'r cyfleuster presennol yn hyfyw ac na ellir defnyddio'r safle at ddiben cyflogaeth arall y caniateir colli safle cyflogaeth,



neu petai'r defnydd newydd yn arwain at welliant sylweddol i'r amgylchedd sy'n gorbwyso colli'r tir cyflogaeth. Mae polisïau hefyd yn caniatáu i safleoedd cyflogaeth gael eu rhyddhau os ydynt yn datblygu i beidio â bod yn hyfyw dros gyfnod y Cynllun. Mae gan y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Datblygu Unedol a Lleol bolisïau sy'n caniatáu ar gyfer cynigion cyflogaeth ar safleoedd sydd heb eu neilltuo.

Mae rhai Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi bod safleoedd tir cyflogaeth penodol yn addas ar gyfer un neu ddau o'r dosbarthiadau defnydd yn unig. Er enghraifft, gallai safle gael ei nodi'n addas at ddefnydd B1 (busnes) neu B8 (storio a dosbarthu), ond nid defnydd diwydiannol cyffredinol (B2). Gallai fod rhesymau da am hyn o ystyried lleoliad y safleoedd, ond y mae'r amodau hyn yn lleihau hyblygrwydd, o ran sicrhau defnydd cyflogaeth ar y safle ac o ran cyfanswm y safleoedd sydd ar gael at ddefnydd B2. Efallai y byddai rhai o fusnesau'r sector Bwyd a Diod eisiau bod yn agos at eu cadwyn gyflenwi, a gallai hyn leihau'r lleoliadau addas. Yn yr un modd, mae rhai Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi y bydd rhywfaint o'r tir a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth yn addas at ddefnydd arall hefyd. Er enghraifft, mae Merthyr Tudful yn nodi y gallai safleoedd cyflogaeth fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Gall y dulliau hyn fod yn rhesymegol os oes safleoedd digonol wedi'u nodi yn gyffredinol ar gyfer y defnydd ychwanegol hwn, ond dylid eu monitro i sicrhau nad ydynt yn arwain at ddiffyg safleoedd digonol i ddiwydiannau eraill.

Cyflenwi ar Safleoedd a Neilltuwyd ar gyfer Cyflogaeth

Yn ôl Adroddiadau Monitro Blynyddol, mae llawer o'r safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth ledled Cymru heb eu datblygu. Mae'r Adroddiadau hyn yn cyfeirio at sawl esboniad posibl o'r diffyg datblygu ar safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth, gan gynnwys llai o ehangu yn sgil y dirwasgiad economaidd, diffyg diddordeb gan ddatblygwyr, diffyg diddordeb gan dirfeddianwyr, hyfywedd a diffyg arian cyhoeddus. Yn yr un modd, ni wireddwyd y twf economaidd a ragwelwyd ar ddechrau cyfnod llawer o'r cynlluniau, neu y mae'n cymryd hwy i'w wireddu, wrth i Gymru brofi newid estynedig a graddol yn yr economi.



Gall trafndiaeth a mynediad effeithio ar gyflenwi ar safleoedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth (a rhai sydd heb eu neilltuo. Mae nifer o Gynlluniau Datblygu Lleol (gan gynnwys Sir Fynwy) yn annog lleoli tir cyflogaeth yn agos i seilwaith trafndiaeth da, megis coridor yr M4. Yn yr

un modd, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill (megis **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**) yn cydnabod y gallai rhai safleoedd fod wedi'u cyfyngu gan faterion mynediad, ac y byddai angen buddsoddi'n sylweddol yn y seilwaith trafndiaeth cyn y gellir dechrau eu datblygu.

Er bod cyfanswm y cyflenwad o dir cyflogaeth yn sylweddol, efallai nad oes cyflenwad priodol o adeiladu modern ar safleoedd o'r maint cywir. Er enghraifft mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol (2015) ar gyfer **Cynllun Datblygu Lleol Torfaen** yn dweud bod yn Nhorfaen *'brinder unedau mwy o faint, gyda thuedd parhaus o weithgynhyrchwyr mawr yn gadael y sir yn sgil diffyg tir/adeiladau addas ar gael yn hawdd'* (para 3.65). Mae Adroddiad Monitro Blynyddol Torfaen yn nodi y bu i gynffatri Hufen Iâ Loseley's ym Mharc Llantarnam, sy'n ffatri fodern 70,000+ troedfedd sgwâr, gael ei chymryd gan weithgynhyrchwr bwyd arall bron yn syth, gan awgrymu bod galw am unedau Bwyd a Diod modern mawr yn yr ardal hon. Mae'r ffaith bod y safleoedd modern yn cael eu cymryd yn sydyn yn awgrymu efallai nad yw rhai o'r safleoedd diwydiannol presennol a hŷn sydd wedi'u diogelu at ddefnydd cyflogaeth yn briodol ar gyfer safleoedd gradd bwyd neu'n addas i fusnesau bach a chanolig sefydlu ynddynt. Yn yr achosion hyn, efallai bod y gost o droi'r unedau diwydiannol presennol yn safleoedd gradd bwyd yn rhy uchel i annog busnesau i gymryd yr unedau/safleoedd a bod unedau a adeiladwyd yn bwrpasol, sy'n cydymffurfio â safonau perthnasol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn cael eu cymryd yn fwy sydyn.

Datblygu y tu Allan i Safleoedd sydd wedi'u Neilltuo

Yn gyffredinol, mae'r polisïau sy'n cefnogi twf economaidd a chyflogaeth yn cynnig rhywfaint o gefnogaeth i ddatblygiadau sy'n darparu cyflogaeth mewn unrhyw leoliad. Ond gall polisïau eraill ar gyfer safleoedd cyflogaeth newydd lywio datblygiadau i fod oddi mewn i gyfyngiadau datblygu'r holl ffiniau aneddiadau, yn gyfagos iddynt neu'n uniongyrchol gysylltiedig â hwy. Yn yr un modd, gall amrywiaeth o bolisïau eraill



annog yn erbyn mathau penodol o ddatblygu mewn ardaloedd gwledig, lle gallai'r datblygiadau hynny gael effaith negyddol ar ffactorau megis y dirwedd, ecoleg neu rwydweithiau ffyrdd gwledig. Gall y polisïau hyn ei gwneud yn anoddach cael caniatâd cynllunio i ddiwydiannau mewn ardaloedd gwledig, a all fod yn brif leoliad o ddewis i lawer o fusnesau'r sector Bwyd a Diod.

Yn yr un modd, mae rhai Cynlluniau Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnal chwiliad cymalog i nodi nad oes safle cyflogaeth presennol neu wedi'i neilltuo, ar gyfer y busnes, cyn i ganiatâd gael ei roi ar safle heb ei neilltuo. Gall hyn arwain at amser a chost ychwanegol wrth gyflwyno cais cynllunio a gallai annog yn erbyn datblygu ar safleoedd nad ydynt wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth, a elwir yn hap-safleoedd. Nid yw hyn yn ystyriaeth os oes digon o safleoedd cyflogaeth da ar gael i ddiwallu anghenion y sector Bwyd a Diod, ond gall fod yn ystyriaeth os nad oes digon ar gael.

Cymorth Rhagweithiol i'r Sector

Yn gyffredinol, mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi rhywfaint o gymorth rhagweithiol i'r sector Bwyd a Diod drwy'r broses o asesu anghenion busnesau yn eu hardal, neilltuo tir cyflogaeth a datblygu polisïau cadarnhaol



ar gyfer datblygu economaidd. Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo safleoedd eu Cynllun Datblygu Lleol i fuddsoddwyr, er nad yw'n glir sut maent yn targedu cyflogwyr a ph'un a fyddent o anghenraid yn cysylltu â busnesau'r sector Bwyd a Diod.

I'r rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol, cyffredinol iawn yw'r camau hyn ac nid ydynt wedi'u hanelu benodol at y sector Bwyd a Diod, a allai fod yn ystyriaeth lle bo anghenion y sector Bwyd a Diod yn wahanol i anghenion sectorau eraill. Er enghraifft, byddai gofynion safleoedd gradd bwyd yn galw am adeilad o fath gwahanol i'r hyn fyddai ei angen ar rai diwydiannau eraill.

Dyma rai enghreifftiau o gamau cefnogol isod:

Bu **Cyngor Sir Ceredigion** yn rhagweithiol yn y sector, gan sefydlu Canolfan Bwyd Cymru (Horeb) ym 1996 fel rhan o'i Strategaeth Datblygu Economaidd. Y mae'n gyfleuster cyngor ac ymgynghori sy'n cynnig gwasanaethau technegol i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr bwyd presennol. Agorwyd yr adeilad Ymchwil a Datblygu gwerth £1.7 miliwn yn 2001 gyda chyllid o Gynllun Her Cyfalaf Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ganolfan yn cynnwys adeilad ymchwil a datblygu, ceginau treialu a chyfleusterau gweithgynhyrchu. Ond er y weithred hon drwy elfen datblygu economaidd y Cyngor, y tu hwnt i'r polisïau cyffredinol a drafodwyd uchod prin iawn o sylw sydd i'r sector Bwyd a Diod yn y Cynllun Datblygu Lleol, heb unrhyw gyfeiriad penodol at y ganolfan fwyd mewn dogfennau polisi nac unrhyw gyfeiriad at y diwydiant fel sector blaenoriaeth.

Mae dwy ganolfan fwyd arall yng Nghymru, sef y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni (ardal **Cyngor Sir Ynys Môn**) a Chanolfan Technoleg Bwyd ZERO2FIVE (ardal **Cyngor Caerdydd**).

Bydd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** yn cynnal Wythnos Fusnes Conwy ym mis Tachwedd 2016 i hyrwyddo'r ardal a chefnogi twf busnesau lleol. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill i gynnal y digwyddiad ac mae'r Adroddiad Monitro Blynnyddol yn nodi'n benodol y caiff safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol eu hyrwyddo yn y digwyddiad hwn. Yn ychwanegol, mae Adroddiad Monitro Blynnyddol 2015 yn nodi bod *'cronfa ddata newydd i fonitro tir cyflogaeth wedi'i sefydlu, a bydd yn monitro pob ardal gyflogaeth a ddiogelwyd. Cyflwynwyd Protocol Tir Cyflogaeth, sy'n nodi'r broses ar gyfer y tir sydd ar gael i ddarparu fuddsoddwyr. Gobeithir y bydd y mesurau hyn yn helpu i ddwyn safleoedd ymlaen yn y dyfodol.'*

Roedd hyrwyddo safleoedd cyflogaeth hefyd yn argymhelliad cyffredinol yn Adroddiad Monitro Blynnyddol **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** ar gyfer 2015.

Bu **Cyngor Sir Caerfyrddin** hefyd yn rhagweithiol yn ei gefnogaeth i'r sector gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd Parc Bwyd Cross Hands dros 12 mlynedd yn ôl ger Cyffordd 49 yr M4 / A48, tua 12 milltir i'r gogledd o Abertawe. Mae'n cwmpasu 50 erw o dir gan gynnwys amrywiaeth o unedau o ofod hybu i unedau prosesau bwyd mawr. Mae'r cynhyrchwyr mawr sydd yno yn cynnwys Bwydydd Castell Howell, Gower View Food (pecynnu bwyd a phrosesu cynnyrch llaeth) a Dawn Meats. Mae hefyd gan Sir Gaerfyrddin Swyddog Datblygu Busnes i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r sector bwyd yn barhaus, a chyfwelwyd â'r swyddog fel rhan o'r cyfweiliadau yn Adran 5.

Nododd Cyngor Sir Caerfyrddin fod tair uned gynhyrchu bwyd newydd wedi'u hadeiladu yn ystod 2014 a 2015, sydd â chyfanswm o 100 mil troedfedd sgwâr ar gost o £11m, gyda chymorth cyllid grant. Caiff yr unedau hyn eu defnyddio gan fusnesau twf brodorol yn y sectorau cig a chynnyrch llaeth. Mae cwmnïau ym maes bwyd yn y sir yn parhau i fuddsoddi llawer mewn peiriannau, offer a datblygu cynnyrch⁶. Er nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio'n benodol at dwf y sector bwyd fel amcan allweddol i'r cynllun, caiff Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands ei gydnabod yn safle cyflogaeth strategol ac mae'r Cynllun yn nodi bod y sector amaethyddol yn darparu cynnyrch lleol i boblogaeth y sir. Mae cefnogaeth i'r sector yn Sir Gaerfyrddin yn enghraifft wych, er y dylid nodi, hyd yn oed yn Sir Gaerfyrddin, nad yw'r gefnogaeth hon wedi'i hintegreiddio'n llawn i ddogfennau polisi cynllunio.

Er bod llawer o barciau diwydiannol sydd â nifer o fusnesau'r sector Bwyd a Diod ynddynt, ni nodwyd unrhyw barciau eraill (fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn) a sefydlwyd yn benodol ac yn unswydd ar gyfer y sector Bwyd a Diod.

⁶ <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/cymorth-busnes/bwyd-a-diod/sector-bwyd/>, darllenwyd 29^{ain} Mawrth 2016.

4: Y Broses Ymgeisio am Ganiatâd Cynllunio i Fusnesau'r Sector Bwyd a Diod

Cyflwyniad

Nod yr adran ganlynol hon o'r adroddiad yw deall profiad busnesau'r sector Bwyd a Diod o gael caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd newydd. Yn y gwaith ymchwil, ceisiwyd archwilio dyfnder y wybodaeth sydd ei hangen, i ba raddau y gwrthodwyd ceisiadau, a'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau, a nodi unrhyw wersi allweddol a allai helpu i wella'r broses, naill ai drwy:

1. Gynorthwyo busnesau i ddewis y safle cywir, cynnal ymgynghoriad cynnar, cyflwyno'r dogfennau cywir a mynd drwy'r broses yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl; a/neu
2. Cynorthwyo'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddeall y sector Bwyd a Diod ac ymdrin â cheisiadau yn fwy effeithiol.

Cynhaliwyd ymchwil gynradd i nodi ceisiadau cynllunio ym mhob un o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru a'r tri Pharc Cenedlaethol. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau'r sector Bwyd a Diod rhwng 2006 a mis Chwefror 2016.

Canolbwyntiai'r adolygiad ar ganfod y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
- Lleoliad y safle
- Hyd y cyfnod penderfynu ynglŷn â'r cais
- Lefel y penderfyniad: dirprwyedig / pwyllgor cynllunio⁷
- Lefel y wybodaeth a gyflwynwyd ym mhob cais
- Unrhyw faterion a gododd.

⁷ Mae lefel y penderfyniad yn cyfeirio at b'un a wnaed y penderfyniad ar y cais cynllunio gan swyddog cynllunio neu gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol gynlluniau dirprwy sy'n caniatáu i benderfyniadau ar geisiadau bach a/neu effaith isel gael eu gwneud gan swyddogion cynllunio. Bydd penderfyniadau ar ddatblygiadau mwy o faint a rhai mwy dadleuol yn aml yn cael eu gwneud gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor sef pwyllgor o gynghorwyr lleol.

Crynodeb: Mathau o Geisiadau a'r Canlyniadau

Roedd mwyafrif y ceisiadau a adolygwyd wedi'u lleoli ar safleoedd cyflogaeth megis parciau diwydiannol, tir a ddatblygwyd yn flaenorol neu oddi mewn i gyfyngiadau datblygu aneddiadau. Mae'r ymchwil yn nodi y caiff ceisiadau mewn parciau diwydiannol neu ar dir llwyd yn gyffredinol eu cymeradwyo yn gymharol gyflym, sy'n gwaredu rhywfaint o'r ansicrwydd a'r ystyriaethau a fyddai'n fwy tebygol o godi pe byddai cais wedi'i leoli mewn lleoliad mwy gwledig. Yn aml, bydd gan barciau busnes/diwydiannol gysylltiadau trafndiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus da, gan olygu eu bod yn hygyrch i gyflogeion a chyflenwadau, ac yn gyffredinol byddant naill ai wedi'u lleoli i ffwrdd o ardaloedd preswyl, neu'n agos at ardaloedd preswyl sydd eisoes wedi'u heffeithio gan ddiwydiant gerllaw. Mae'r holl ffactorau hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi, ar lefel swyddog, dros gyfnod cymharol fyr. Gall datblygu ar dir sydd wedi'i neilltuo neu safleoedd cyflogaeth presennol hefyd leihau costau cais cynllunio gan fod llai o faterion i'w gwerthuso.

Cymeradwywyd tua 1/3 o'r ceisiadau o dan bwerau dirprwyedig ac ni fu'n rhaid iddynt gael eu hystyried gan bwyllgor cynllunio. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw bod y mwyafrif o geisiadau yn ymwneud â chodi uned ddiwydiannol ar barc busnes presennol, neu estyniadau i uned ddiwydiannol bresennol, neu newid defnydd syml oddi mewn i ddosbarthiadau B. Er hyn, nid oedd lefel y penderfyniad ar gael ar-lein yn achos tua 40 y cant o'r ceisiadau yr ymchwiliwyd iddynt felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn.

Maer ymchwil ddesg hefyd yn nodi mai prin iawn yw'r ceisiadau cynllunio am safleoedd Bwyd a Diod sy'n destun apêl, sy'n lleihau'r cyfnod i gael caniatâd yn sylweddol.

O ran y mathau o fusnesau sy'n ehangu a datblygu safleoedd newydd, gwelwyd amrywiaeth eang o fusnesau yn y sector bwyd a'r sector diod.

Methodoleg

Dylai'r holl wybodaeth a gyflwynir fel rhan o gais cynllunio (oni bai y caiff ei wneud yn gyfrinachol o dan amgylchiadau penodol) fod ar gael yn gyhoeddus i graffu arnynt. Ond mae pa mor hawdd yw cael y data hwn yn amrywio'n sylweddol iawn rhwng un Awdurdod Cynllunio Lleol a'r llall. Dull chwilio ar-lein a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn, ac yn dilyn hynny gwnaed galwadau ffon i Awdurdodau Cynlluniau Lleol i gael deall faint o wybodaeth oedd ar gael ar-lein ac yn gyhoeddus.

Mae gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol wefan unigol sy'n cynnwys gwybodaeth am geisiadau cynllunio, ac mae gan y rhan fwyaf gyfleuster chwilio ar-lein sy'n cynnwys cofnodion o geisiadau cynllunio oddi mewn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth hon yn cynnwys disgrifiad llawn o'r cynnig, y math o gais ydyw a pha statws sydd iddo, cyfeiriad y safle a dyddiadau pwysig; megis dyddiad derbyn a dilysu, dyddiad y penderfyniad a gwybodaeth am apêl os yw hynny'n berthnasol. Bydd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnwys dogfennau cysylltiedig a gyflwynwyd gyda'r cais neu yn ystod y cyfnod penderfynu; megis ffurflen gais, cynlluniau, adroddiadau amgylcheddol ac ymatebion i'r ymgynghoriad.

Gellir chwilio am geisiadau cynllunio drwy ddefnyddio nifer o feini prawf, er enghraifft cyfeirnod, math, lleoliad a dyddiadau, ac mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn caniatáu ichi chwilio ar sail geiriau allweddol. Fel a drafodir isod, nid yw lefel y wybodaeth a ddarperir ar-lein a'r cyfleusterau chwilio yn gyson ar draws yr Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Os oedd tab chwilio am eiriau allweddol ar y wefan, defnyddiwyd geiriau allweddol megis Food/Drink/B1/B2 a B8 i chwilio am geisiadau posibl yn ymwneud â bwyd a diod, ac eithrio bwytai, caffis ac archfarchnadoedd newydd. Defnyddiwyd B1/B2 a B3 fel maen prawf am y byddai gweithgynhyrchu Bwyd a Diod fel arfer yn dod o dan y dosbarthiadau defnydd hyn, yn achos datblygiad newydd neu newid defnydd datblygiad presennol.

Cynhaliwyd chwiliad Google cyffredinol hefyd ar gyfer pob ardal i nodi unrhyw fusnesau posibl eraill ym maes bwyd/diod/storio/dosbarthu. Defnyddiwyd hyn hefyd i nodi ceisiadau mewn ardaloedd sydd heb gyfleuster chwilio am eiriau allweddol.

Cyfyngiadau

Tra bo gan wyth⁸ o'r 25 Cyngor (gan gynnwys tri Pharc Cenedlaethol) eu ceisiadau cynllunio ar-lein, nid oedd ganddynt gyfleuster ar gael i chwilio ar sail geiriau allweddol. Mae hyn yn cyfyngu'n fawr ar y dull o lunio rhestr gynhwysfawr o holl weithgynhyrchwyr a busnesau unigol y sector Bwyd a Diod sydd wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio dros y 10 mlynedd diwethaf. Nid oedd dau⁹ o'r 25 Cyngor yn darparu unrhyw ddogfennau ar-lein (ar wahân i'r Hysbysiad Penderfynu) er mwyn adolygu cynnwys y ceisiadau cynllunio, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r Cyngorau yn darparu manylion ceisiadau hyn.

Nid oes ffordd unedig gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddisgrifio datblygiad, felly wrth ddefnyddio'r meini prawf cyffredinol i chwilio, efallai nad yw'r datblygiad yn cynnwys y geiriau *food/drink manufacturing/unit* neu *process*.

Er enghraifft, gallai'r cais fod wedi'i ddisgrifio fel uned ddiwydiannol gyffredinol B1/B2/B8 arfaethedig, neu efallai nad yw'r sawl a fydd yn defnyddio'r safle yn y pen draw wedi'i ddiffinio ac felly ni fydd yn ymddangos fel asiant neu ymgeisydd sy'n ymwneud â busnesau Bwyd a Diod. Gallai ymgeisydd sydd eisiau datblygu safle prosesu dofednod ddisgrifio'r cais gan ddefnyddio nifer o dermau, o '*chicken sheds*', '*industrial development*' a '*poultry house*' i '*meat production warehouse*'. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i bob un o fath unigol o gais gan chwilio yn ôl geiriau allweddol.

Mae llawer o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol heb gyfleuster chwilio am eiriau allweddol ac yn yr achosion hyn mae angen gwybodaeth sylweddol, (e.e. cyfeiriad y safle neu'r cyfeirnod) er mwyn cael gafael ar wybodaeth gan ddefnyddio'r cyfleuster chwilio ar-lein. Mae hyn yn golygu mai amhosibl yw dod o hyd i geisiadau oni bai bod y manylion eisoes yn hysbys.

Er y gwnaed pob ymdrech i ganfod amrywiaeth mor eang â phosibl o geisiadau oddi mewn i amserlen yr astudiaeth hon, mae'r cyfyngiadau uchod yn golygu y dylid ystyried y bennod hon yn adolygiad o is-set o geisiadau a ddewiswyd i ddarparu amrywiaeth o ddatblygiadau o ran lleoliad, maint a math o gynnyrch, yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o geisiadau a gyflwynwyd.

⁸ Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Powys, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg.

⁹ Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mathau o Geisiadau a'r Canlyniadau

Adolygwyd cyfanswm o 57 o geisiadau cynllunio gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifir uchod ac adolygwyd y wybodaeth sydd ar gael i asesu'r mathau o geisiadau cynllunio a wnaed gan y sector Bwyd a Diod, a'u cynnwys, dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae Tablau 4.1, 4.2 a 4.3 yn crynhoi'r geisiadau a adolygwyd.

Tabl 4.1: Penderfyniadau ar 57 o geisiadau cynllunio

Nifer a Gymeradwywyd	Nifer a Wrthodwyd	Aros am Benderfyniad	Tynnwyd yn Ôl	Heb fod yn wybyddus o'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein
49	0	3	3	2

Cymeradwywyd y rhan fwyaf o'r geisiadau; o'r 57 o geisiadau a adolygwyd, ni wrthodwyd yr un cais, er i dri chais gael eu tynnu'n ôl ac nid oes gennym wybodaeth am ddau. Mae Tabl 4.1, 4.2 a 4.3 yn crynhoi'r geisiadau a adolygwyd.

Tabl 4.2: Lefel penderfyniadau 57 o geisiadau cynllunio

Dirprwyedig	Pwyllgor Cynllunio	Ymchwiliad Cyhoeddus	Tynnwyd yn Ôl	Heb fod yn wybyddus o'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein	Aros am Benderfyniad
18	9	1	3	23	3

Roedd gwybodaeth ar lefel y penderfyniad ar gael ar gyfer llai na hanner y geisiadau a adolygwyd, ond mae'r wybodaeth wedi'i chrynhui yn Nhabl 4.2. Lle'r oedd gwybodaeth ar gael, cafodd 64 y cant¹⁰ o'r penderfyniadau eu gwneud gan swyddog cynllunio a 29 y cant gan Bwyllgor Cynllunio. Bu un cais yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus. Mae penderfyniad gan swyddogion fel arfer yn cymryd llai o amser na phenderfyniad gan Bwyllgor Cynllunio, sy'n awgrymu bod tua dau draean y geisiadau yn gymharol syml ac nad oeddynt yn cael eu hystyried yn fawr nac yn ddadleuol.

Ni ddylai penderfyniadau ar geisiadau cynllunio fod yn benderfyniadau gwleidyddol, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gael eu gwneud yn unol â'r gyfraith ac nid ar sail ymlyniad gwleidyddol na phwysau gan y cyhoedd. Ond y mae penderfyniad mewn pwyllgor yn cyflwyno mwy o ansicrwydd am y bydd nifer o aelodau etholedig yn pleidleisio ar gais ar unrhyw adeg a gall y pwyllgor bleidleisio'n erbyn argymhellid swyddog. Gall y cais hefyd gymryd mwy o amser i ddod i benderfyniad yn ei gylch mewn pwyllgor am y caiff cyfarfodydd eu cynnal yn llai aml ac yn aml bydd gofyn i'r aelodau ymweld â'r safle. Felly'n aml mae'n well gan ymgeiswyr benderfyniadau dirprwyedig.

¹⁰ Mae pob ffigwr sydd ar ffurf canran yn yr adroddiad hwn wedi'i dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn rhagnodi nifer o newidiadau i'r broses o reoli datblygu, er mwyn sicrhau ymagwedd mwy cyson ac effeithlon at weithdrefnau a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Yn bresennol, y mae amrywiaeth eang yn nhrefniadau a chynlluniau dirprwyo pwyllgorau cynllunio. Mae maint, aelodaeth, amllder a hyfforddiant i'r aelodau hefyd yn amrywio'n sylweddol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ragnodi maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio a sefydlu cynllun cenedlaethol o ddirprwyo i sicrhau cysondeb o ran y ceisiadau a gaiff eu hystyried gan bwyllgorau cynllunio. Caiff hyn ei gynnig ar ffurf deddfwriaeth eilaidd i weithredu'r newidiadau yn y system gynllunio a gyflwynwyd gan y Ddeddf.

O ran y cais unigol a fu'n destun Ymchwiliad Cyhoeddus, cais ydoedd am laethdy mwyaf Cymru ar Fferm Lower Leighton ym Mhowys (Cyfeirnod Cynllunio: P/2011/0156) wedi iddo gael ei herio gan Grŵp Lles Anifeiliaid. Bu i'r penderfyniad terfynol felly gymryd mwy na thair blynedd o ddyddiad cyflwyno'r cais i gychwyn. Roedd hon yn enghraifft unigryw oherwydd cymhlethdodau a sylw gwleidyddol yr achos.

Tabl 4.3: Y mathau o ddatblygiadau y ceisiwyd amdanynt mewn 57 o geisiadau cynllunio

Uned newydd ar stad ddiwydiannol / parc busnes	Uned newydd heb fod ar stad ddiwydiannol / parc busnes	Estyniad / datblygiad ategol i safle presennol ar stad ddiwydiannol	Newid defnydd	Heb fod yn wybyddus o'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein	Newid defnydd neu estyniad i uned amaethyddol
10	3	26	10	1	7

Mae'r mathau o geisiadau wedi'u crynhoi yn Nhabl 4.3 uchod. Mae hyn yn dangos mai estyniadau i unedau presennol neu geisiadau i newid defnydd oedd 77 cant o'r ceisiadau. Yn gyffredinol, ceisiadau bach eu natur yw'r rhain a gallai hyn esbonio pam y cafodd cymaint o'r ceisiadau eu cymeradwyo drwy benderfyniadau wedi'u dirprwyo. O'r ceisiadau a olygai uned newydd, roedd 77 y cant o'r rhain ar stad ddiwydiannol neu barc busnes presennol. Hynny yw, roeddynt wedi'u lleoli ar safle sydd eisoes wedi'i gydnabod yn addas at ddefnydd diwydiannol neu fusnes. Unwaith eto, mae hyn yn helpu i esbonio'r ffaith y cafodd bron i'r cyfan o'r ceisiadau eu cymeradwyo am fod yr egwyddor o ddatblygu eisoes wedi'i sefydlu ar y safleoedd hyn. Tri chais yn unig a oedd yn ymwneud â datblygu safle newydd heb fod ar stad ddiwydiannol.

Fel a drafodwyd yn Adran 3, os yw busnes yn bwriadu defnyddio adeilad presennol sydd yn yr un dosbarth defnydd, ni fydd bob amser angen caniatâd cynllunio. Er enghraifft, gallai paratoi uned ddiwydiannol bresennol lle nad oes angen unrhyw ddatblygu pellach gael ei ystyried yn ddatblygu a ganiateir, (er enghraifft The Welsh Food Pantry, Y Rhondda, Cyfeirnod 06/0041/10). Mae hyn yn golygu na fyddai llawer o fusnesau sy'n symud i safle newydd yn cael eu cipio gan y data uchod.

Mae Tabl 4.4 yn darparu rhestr o rai cynhyrchwyr Bwyd a Diod sydd wedi ceisio caniatâd cynllunio yng Nghymru rhwng 2006-2016.

Tabl 4.4: Enghreifftiau o Gwmnïau sy'n Ceisio am Ganiatâd Cynllunio am Safle Newydd/Estynedig 2006-2016

Enw'r Cwmni	Cynnyrch	Cyfeiriad y Cwmni	Awdurdod Cynllunio Lleol
<u>Zorba Delicacies</u>	Cyflenwr Dipiau a Llenwadau Oer a Chartref y Real Soup Company	Uned 12-13, Stad Ddiwydiannol Rassau, Rassau, Glyn Ebwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
<u>Peter's</u>	Pasteiod – cyflenwi i amrywiaeth o gwsmeriaid gan gynnwys siopau lleol, archfarchnadoedd a stadiwms	Stad Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Bedwas, Caerffili, CF83 8XP	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
<u>Premier Foods</u>	Cyflenwr Cynnyrch Bwyd	Heol Azalea, Tŷ Du, Casnewydd NP10 9SA	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
<u>Princes Group</u>	Cynhyrchu cynnyrch sudd mewn cartonau 1 litr, amlbecynnau ac unedau arddangos parod i'w gwerthu	68-69 a 72, Stad Ddiwydiannol Heol Portmanmoor, Heol Portmanmoor, Sblot, Caerdydd, CF24 5H	Cyngor Dinas Caerdydd
<u>Bwydydd Castell Howell</u>	Cyflenwi a hyrwyddo cynnyrch rhanbarthol (cig o Gymru, cynnyrch llaeth a bwydydd arbenigol). Prif ddepo yn Cross Hands, a phedwar is-ddepo yn Avonmouth, Blaenau Ffestiniog, y Waun a Merthyr Tudful	Heol Tŷ Newydd, Parc Bwyd Cross Hands, Cross Hands SA14 6SX	Cyngor Sir Caerfyrddin
<u>Dawn Meats</u>	Cyflenwr cig – pecynnu ar gyfer manwerthu wedi'i ganolbwyntio yn Cross Hands	Heol Tŷ Newydd, Parc Bwyd Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Dyfed SA14 6RF	Cyngor Sir Caerfyrddin
<u>Carmarthenshire Cheese Company</u>	Busnes caws crefft sy'n cyflenwi aml-siopau mawr, siopau arbenigol a chyfanwerthwyr	Neuadd Boksburg, Llanllwch, Sir Gaerfyrddin SA31 3RN	Cyngor Sir Caerfyrddin

Enw'r Cwmni	Cynnyrch	Cyfeiriad y Cwmni	Awdurdod Cynllunio Lleol
<u>Govindas Foods</u>	Cynnyrch di-gig a heb gynhwysion penodol (figan, cnau a glwten)	Uned E, Heol Tŷ Newydd, Parc Bwyd Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Dyfed SA14 6RF	Cyngor Sir Caerfyrddin
<u>Rachel's Organic Dairy</u>	Cynnyrch o laeth llawn organig	Uned 63, Stad Ddiwydiannol Glanyrafon, Aberystwyth, SY23 3JQ	Ceredigion
<u>Gwasanaeth Bwyd Harlech</u>	Cyflenwi bwyd amgylchol, wedi'i oeri ac wedi'i rewi, bwydydd, hufen iâ a deunyddiau glanhau a thafladwy yn ogystal â'n cynnyrch cigyddiaeth sydd wedi ennill sawl gwobr, ledled gogledd a chanolbarth Cymru, Swydd Caer, de Manceinion a Swydd Amwythig	Uned 1-4, Parc Bwyd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, Cymru LL52 0LJ	Cyngor Gwynedd
<u>Vion Food Group</u>	Grŵp Bwyd sydd â gwaith prosesu dofednod yn Sandycroft	Glendale Avenue, Sandycroft, CH5 2QP	Cyngor Sir y Fflint
Buckley Foods Ltd		Uned 5, Stad Ddiwydiannol Little Mountain, Bwcle, CH7 3AG	Cyngor Sir y Fflint
<u>Halen Môn</u>	Cynhyrchu halen môr sy'n cael ei gyflenwi ledled y byd	Halen Môn, Brynsiencyn, Ynys Môn, LL616TQ	Ynys Môn
<u>Eurofoods</u>	Gweithgynhyrchwr a dosbarthwr rhyngwladol sy'n gwasanaethu sectorau bwytai, arlwygo ac archfarchnadoedd arbenigol	Uned D i E, Ffordd Langland, Casnewydd, NP19 4PT	Cyngor Dinas Casnewydd
<u>Pembrokeshire Produce Direct</u>	Gwasanaeth cyflenwi cynnyrch ffres i'r cartref	Sarngwm, Bethesda, Arberth, SA67 8HG	Cyngor Sir Penfro
<u>Welsh Hills Bakery</u>	Cwmni pobi sefydledig sy'n arbenigo mewn gwneud cacennau a phasteiod di-glwten gan gyflenwi'r prif archfarchnadoedd yn y DU	Welsh Hills Bakery Ltd, Tramway, Hirwaun, Aberdâr, Morgannwg Ganol, CF44 9NY	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Enw'r Cwmni	Cynnyrch	Cyfeiriad y Cwmni	Awdurdod Cynllunio Lleol
FE International Foods	Pecynnau bwyd a photiau byrbryd i'r microdon	Ffordd Clarke, Stad Ddiwydiannol Winch Wen, Abertawe SA1 7DE	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Maelor Poultry Ltd http://www.dailypost.co.uk/business/poultry-firm-says-invest-10m-8018360	Uned Prosesu Dofednod	Maelor Creamery, Lôn Pickhill, Cross Lanes, Wreccsam, LL13 OUE	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Rowan Foods	Datblygu bwydydd parod o dan label y manwerthwr	De Ffordd Onnen, Stad Ddiwydiannol Wreccsam, Wreccsam, LL13 9UG	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Norish	Busnes warws aml-dymheredd a logisteg trydydd parti.	De Ffordd Onnen, Stad Ddiwydiannol Wreccsam, Wreccsam, LL13 9UG	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Village Bakery	Cwmni pobi sy'n cynhyrchu bara, pasteiod a nwyddau'r bore a werthir mewn manwerthwyr annibynnol yng ngogledd Cymru yn ogystal ag yn Tesco, Spar, Co-op, ASDA a McColls	De Ffordd Onnen, Stad Ddiwydiannol Wreccsam, Wreccsam, LL13 9UG	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Gwybodaeth sydd ei hangen i gefnogi Cais Cynllunio ar gyfer Safle i'r Sector Bwyd a Diod

Mae'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r cais cynllunio yn amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'n newid defnydd, yn adeilad newydd neu'n estyniad, yn ogystal â defnydd yr adeilad yn y pen draw a maint y datblygiad. Bydd ffactorau megis nifer y staff, cyflenwadau a'r mathau o allyriadau (sŵn, llwch ac aroglau) oll yn cyfrannu at gymhlethdod cais cynllunio.

Crynodeb: Gwybodaeth sydd ei Hangen ar gyfer Ceisiadau Cynllunio ac Amser

Yn gyffredinol mae lefel y wybodaeth a ddarperir fel rhan o geisiadau ar gyfer safleoedd y Sector Bwyd a Diod yn amrywio'n eang yn dibynnu ar natur, maint a lleoliad y cynnig, ynghyd â'i effeithiau. Mae'r gwaith ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn cefnogi'r angen i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sefydlu egwyddor y datblygiad a chytuno ar ba wybodaeth sydd i'w darparu fel rhan o'r cais.

Roedd bron i bob cais yn cynnwys Ffurflen Gais, Cynllun Lleoliad, Cynlluniau (Llawr a Gweddlluniau), Datganiad Dylunio a Mynediad a rhyw fath o asesiadau ar lifogydd neu ecoleg. Prin iawn oedd y ceisiadau lle'r oedd gofyn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ond roedd yn llawer mwy cyffredin i'r rhain fod yn ofynnol mewn datblygiadau sy'n golygu safleoedd newydd, yn arbennig rhai nad ydynt ar barciau diwydiannol presennol.

O ran amser, roedd ceisiadau newid defnydd ac estyniadau bach, syml, yn dueddol o dderbyn penderfyniad o fewn y cyfnod statudol o wyth wythnos. Ond roedd ceisiadau mwy o faint yn aml yn mynd y tu hwnt i'w cyfyngiadau amser. Ceir enghreifftiau unigol o geisiadau a gymerodd amser hir iawn i dderbyn penderfyniad, yn arbennig Princes Soft Drinks yng Nghaerdydd (a gymerodd flwyddyn yn sgil amser hir yn trafod telerau rhwymedigaethau cynllunio) ac Uned Fferm Laeth Fferm Lower Leighton (a gymerodd dair blynedd am i'r cais gael ei alw i mewn a'i herio yn yr Uchel Lys). Eithriadau yw'r ceisiadau hyn, ond y maent yn dangos yr oedi a all ddigwydd yn sgil y ceisiadau mwyaf cymhleth.

Roedd manteision busnesau'r sector Bwyd a Diod i'r ardal leol bob amser yn pwysu o blaid y cynigion, gan adlewyrchu'r gefnogaeth sydd i fusnesau sy'n creu swyddi mewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Yn ôl ymgeiswyr a fynegodd fanteision y cynlluniau i'r ardal leol, ystyriwyd bod y manteision yn pwysu o blaid y cynigion gan swyddogion cynllunio a Phwyllgorau Cynllunio. Yn achos un cais a adolygwyd, anfonodd Llywodraeth Cymru (Pennaeth Datblygu Busnes) ymateb yn nodi manteision economaidd y sector i Gymru a manteision y safle yn benodol. Gall yr ymatebion hyn helpu i roi hygrdedd i ddadleuon o blaid y cynllun. Yn achos Uned Fferm Laeth Fferm Lower Leighton, roedd manteision economaidd y cynllun yn gorbwyso nifer o effeithiau ar yr amgylchedd ac asedau treftadaeth. Mae hyn yn dangos ymhellach bwysigrwydd mynegi manteision economaidd cynlluniau'r sector Bwyd a Diod yn glir yn ystod proses y cais cynllunio.

Sefydlu'r Wybodaeth Angenrheidiol

Y mae rhestr wirio ddilysu genedlaethol yn bodoli sy'n nodi'r wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda chais cynllunio, ac mae gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru hefyd eu rhestrau gwirio eu hunain. Ond ffordd dda i gadarnhau gofynion gwybodaeth yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yw cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eich annog i gyflwyno **ymholiad cyn ymgeisio**, a thrwy'r Ddeddf Cynllunio (Cymru), bydd ymgynghoriad cyn ymgeisio yn ofyniad gorfodol i fathau penodol o ddatblygiad ac yn cael ei orfodi yn achos ceisiadau a gyflwynir ar ôl 1af Awst 2016. Bydd hyn yn galluogi i Weinidogion ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau gyflwyno gwasanaethau cyn ymgeisio ffurfiol lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.

Un o'r ceisiadau diweddaraf i'w adolygu oedd adnewyddu a chodi estyniad i ffatri bresennol Faccenda Foods (Cyfeirnod Cynllunio: DC/2015/01040 yng Nghyngor Sir Fynwy). Cynhaliodd yr ymgeisydd trafodaethau manwl cyn ymgeisio gyda'r Cyngor. Cadarnhaodd y Cyngor yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio fod y safle eisoes yn safle cyflogaeth gwarchodedig ar gyfer datblygu diwydiannol a busnes, ac felly byddai egwyddor y gwaith arfaethedig yn dderbyniol. Croesawyd y gwaith i wella golwg yr adeilad presennol. Yn y cyngor a gafwyd drwy'r ymholiad cyn ymgeisio, nodwyd y dylai'r ymgeiswyr roi ystyriaeth yn benodol yn eu cais i ddewis deunyddiau o liwiau cynnil, manylion ar gyfer tirwedd a gwerthusiad ecolegol rhagarweiniol. Drwy ymgymryd â'r ymholiad cyn ymgeisio hwn, cafodd yr ymgeisydd olwg gynnar ar ba mor dderbyniol yw'r datblygiad a'r dogfennau oedd eu hangen fel rhan o'r cais. Bu i'r cyfathrebu hwn osgoi oedi sylweddol wedi i'r cais gael ei gyflwyno ac yn gyffredinol mae busnesau eraill yn y sector Bwyd a Diod yn debygol o ganfod y byddai cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio o gymorth mewn ffyrdd tebyg.

Adolygu'r Wybodaeth a Gyflwynwyd mewn Ceisiadau

Fel arfer, darparwyd lefel sylfaenol o wybodaeth ar ffurf Ffurflen Gais, Cynllun Lleoliad, Cynlluniau (Llawr a Gweddlluniau), Datganiad Dylunio a Mynediad, Asesiad Perygl Llifogydd ac Asesiad Ecolegol. Yn gyffredinol, yn yr achosion hynny lle bu i geisiadau'r sector Bwyd a Diod fynd y tu hwnt i'r cyfnod penderfynu statudol (hynny yw, lle nad oedd penderfyniad wedi'i wneud o fewn wyth wythnos yn achos cais safonol, 13 wythnos yn achos cais mawr neu 16 wythnos am gais gydag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol), yr oedd hynny am fod trafodaethau'n parhau ynglŷn â manylion ychwanegol megis gofynion am Asesiad Risg Mwyngloddio, Halogi Tir, ac Asesiad Llifogydd a Draenio. Unwaith eto, gallai'r achosion hyn o oedi fod wedi'u hosgoi drwy ymgynghori cyn ymgeisio, er ei bod bob amser yn bosibl y gall gofynion ychwanegol godi ar ôl cyflwyno cais hyd yn oed pe cynhaliwyd ymgynghoriad.

Ceisiadau Enghreifftiol a Gwybodaeth Angenrheidiol

Caiff pum cais eu hadolygu'n fanwl yn yr adran hon fel astudiaethau achos i ddangos amrywiaeth a manylder y wybodaeth a all fod yn ofynnol fel rhan o geisiadau'r sector Bwyd a Diod. Mae'r crynodebau yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar-lein ac felly y maent mor gynhwysfawr â'r wybodaeth a wnaed ar gael i'r cyhoedd gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Mae'r ceisiadau wedi'u dynodi â lliw i roi syniad cyffredinol o gymhlethdod y cais cynllunio. Mae'r cymhlethdod yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â nifer a manylder yr asesiadau angenrheidiol ac felly y mae hefyd yn debygol o fod yn gysylltiedig â chost paratoi'r cais.

Tabl 4.5: Diffiniadau Cod Lliwiau'r Ceisiadau

Lliw	Cymhlethdod y cais cynllunio
	Isel
	Canolig
	Uchel

Rowan Foods (Oscar Mayer), estyniad i gyfleuster bwyd presennol i greu 1,205m² o ofod llawr ychwanegol i gynorthwyo â storio nwyddau amgylchol, wedi'u hoeri ac wedi'u rhewi (2013)

Awdurdod Cynllunio Lleol: Wrecsam

Cais i ymestyn cyfleuster prosesu bwyd presennol sy'n datblygu bwydydd parod dan label manwerthwyr yn Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Mae'r cyfleuster yn cyflogi tua 600 o staff. Roedd y dogfennau canlynol yn ategu'r cais:

Cynllun Lleoliad, Ffurflen Gais, Cynlluniau (gweddluniau presennol ac arfaethedig, cynllun to a llawr a thrawsluniau), Adroddiad Ecoleg (Datganiad Dull Osgoi Rhesymol a Datganiad Bioamrywiaeth), Datganiad Dylunio a Mynediad, Cynllun Tirwedd a ffotograffau o'r safle.

Canlyniad: Cymeradwywyd y cynnig o fewn yr wyth wythnos o gyfnod penderfynu. Yn ystod yr amser hwn, bu'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gadarnhau bod y trefniadau mynediad a'r ddarpariaeth barcio bresennol yn ddigonol. Roedd hefyd angen Datganiad Dull Osgoi Rhesymol i nodi sut byddai niwed i fadfallod cribog yn cael ei osgoi yn ystod y gwaith adeiladu. Gosodwyd amod ar y caniatâd a olygai bod gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno cynllun tirweddu manylach cyn cychwyn ar y datblygiad.

Gwersi a ddysgwyd: Roedd y datblygiad wedi'i leoli ar gyfleuster diwydiannol presennol ac roedd yn golygu estyniad cymharol fach. Felly cyfyngedig oedd yr effeithiau ac roedd y cyfleusterau presennol (e.e. parcio ceir) yn ddigonol i fodloni'r cynnydd ym maint y cyfleuster. Cymharol isel oedd lefel y wybodaeth ac ystyriwyd ei bod yn briodol o safbwynt maint a lleoliad y datblygiad. Mae gosod amodau ar ganiatâd i gael manylion pellach (megis tirweddu neu ddraenio) yn sicrhau y caiff costau eu gohirio hyd nes bod penderfyniad wedi'i wneud, ond yn gyffredinol bydd hyn yn cynyddu'r amser cyn bod modd cychwyn ar y gwaith datblygu gan y byddai angen cyflwyno cais i ryddhau'r amod. Os yw'r ymgeiswyr yn dymuno, gallant gyflwyno mwy o wybodaeth yn ystod y broses ymgeisio i osgoi neu leihau nifer yr amodau cynllunio, gan gynyddu pa mor gyflym y bydd modd cychwyn ar y gwaith datblygu ar ôl cael caniatâd.

Codi adeilad i storio a dosbarthu tatws (2012)

Awdurdod Cynllunio Lleol: Rhondda Cynon Taf

Cais oedd hwn am adeilad ffrâm porthol (24.5m o hyd, 12.55m o led a 6.45m o uchder) ar Stad Ddiwydiannol Hirwaun yn Aberdâr. Mae hyn yn dod o dan ddosbarth defnydd B8 gan mai storio a dosbarthu ydyw yn hytrach na phroses ddiwydiannol. Darparwyd cyfres o ddogfennau ategol fel rhan o'r cais hwn:

Cynllun Lleoliad, Ffurflen Gais, cynlluniau (cynlluniau llawr, gweddluniau, golygfa'r stryd, draenio a threfniadau parcio/mynediad), Arolwg Topograffig a Datganiad Dylunio a Mynediad.

Canlyniad: Cymeradwywyd y cynnig a chwblhawyd y broses o fewn yr wyth wythnos o gyfnod penderfynu. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad ond roedd gofyn cyflwyno manylion pellach yn ymwneud â phriffyrdd a halogi tir.

Gwersi a ddysgwyd: Roedd y datblygiad wedi'i leoli oddi mewn i ffiniau anheddiad ac ar gyfleuster diwydiannol presennol. Felly'r prif ystyriaethau wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynnig oedd yr effaith ar amwynder eiddo cyfagos, amwynder gweledol a'r briffordd. Roedd y cynnig wedi'i gyflwyno a'i gyfiawnhau'n dda yn y Datganiad Dylunio a Mynediad. Ystyriwyd bod lefel y wybodaeth yn briodol o safbwynt maint a lleoliad y datblygiad.



Princes Soft Drinks – Estyniad i gyfleuster cynhyrchu a dosbarthu presennol i ddarparu warws cynnyrch, storfa oer, storfa oerach, llinell gynhyrchu, swyddfeydd (9,700m²) a datblygiad atodol megis seilos allanol, ardaloedd ailgylchu, maes parcio ac adlinio ffordd fewnol y stad (2013)

Awdurdod Cynllunio Lleol: Caerdydd

Mae Princes yn gwmni cynhyrchu bwyd a diod mawr yn y Deyrnas Unedig, gyda'i gyfleuster cynhyrchu yng Nghaerdydd ac yn arbenigo mewn cartonau sudd ffrwythau. Cais oedd hwn i ehangu'r cyfleuster prosesu diodydd sefydledig ar Stad Ddiwydiannol Ffordd Portmanmoor, a golygai ddymchwel un uned bresennol a chodi dwy uned newydd, gan arwain at greu 48 o swyddi newydd. Roedd y cais yn cynnwys cyfres o ddogfennau ategol:-

Cynllun Lleoliad, Cynlluniau (gweddlluniau presennol ac arfaethedig, cynllun to a llawr a thrawsluniau), Ffurflen Gais, Datganiad Dylunio a Mynediad (ac adendwm), Cynlluniau (Cynlluniau Llawr a Tho Presennol/Arfaethedig a Gweddlluniau), Datganiad Dull Coedyddiaeth, Asesiad Trafnidiaeth, Adroddiad Halogiad Safle, Asesiad Effaith Ecolegol a Rhag-asesiad BREEAM.

Canlyniad: Y materion allweddol wrth ystyried y cais hwn oedd dyluniad, maint a chanfyddiad o faint a ffurf cyffredinol, tirweddu, gosodiad, traffig, parcio a mynediad, a datblygu economaidd.

Un gwrthwynebiad a dderbyniwyd i'r cynnig, a hynny gan fusnes gerllaw. Cymrodd y cais 18 wythnos cyn iddo fynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio ac roeddynt 'o blaid cymeradwyo' cyhyd ag y cytunid ar rwymedigaethau cynllunio. Roedd y cynnig hefyd yn golygu gwaredu 70 o goed ac yn ystod y cyfnod penderfynu gofynnodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol am Ddatganiad Dull Coedyddiaeth, Datganiad Effaith Coedyddiaeth, Cynllun Diogelu Coed a Chynlluniau Plannu Coed mewn Tyllau.

Blwyddyn gyfan ar ôl dilysu'r cais y cyhoeddwyd y penderfyniad terfynol, am fod angen rhwymedigaeth gynllunio ar ffurf Adran 106. Nid yw manylion ariannol yr S106 ar gael i'r cyhoedd; ond gofynnodd Swyddog Cynllun Teithio'r Cyngor am gyfraniad o £7,000 i ddarparu dau arosfan bws ychwanegol.

Gwersi a Ddysgwyd: Er mai estyniad i gyfleuster diwydiannol presennol ar dir llwyd ydoedd, o ystyried maint y datblygiad a'i effeithiau posibl, roedd gofyn rhoi ystyriaeth i ragor o gymhlethdodau. Felly roedd angen mwy o asesiadau manwl er mwyn rhoi lefel briodol o wybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais. Er enghraifft, roedd yn rhaid i'r Asesiad Trafnidiaeth asesu effeithiau'r ffordd fynediad drwy'r safle diwydiannol a dangos bod darpariaeth ar gyfer y nifer briodol o fannau parcio ceir ychwanegol. Mae hyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sefydlu pa rwymedigaethau cynllunio allai fod yn ofynnol wrth baratoi cais cynllunio.

Maelor Poultry Ltd – Newid Defnydd (o Dorri Caws) i Uned Prosesu Dofednod (2015)

Awdurdod Cynllunio Lleol: Wrecsam

Gwnaeth Maelor Poultry Ltd gais i newid defnydd cyn-safle First Milk, gan greu hyd at 150 o swyddi newydd. Roedd y cais yn cynnwys cyfres o ddogfennau ategol -

Ffurflen Gais, Cynllun Lleoliad, Gosodiad Presennol ac Arfaethedig, Adroddiad Ansawdd Aer, Datganiad Dylunio a Mynediad, Cynllun Rheoli Traffig, Asesiad Canlyniadau Llifogydd, Asesiad Effaith Sŵn, Asesiad Risg Aroglau a Chamau Rheoli Arfaethedig.

Canlyniad: Y materion allweddol i'w hystyried yn y cais hwn oedd glynu wrth reoliadau yn ymwneud ag allyriadau sŵn, aroglau a llwch, llygredd, traffig, parcio a mynediad, effaith adeiladu ar y gymuned leol, a datblygu economaidd. Cymerwyd 19 wythnos i ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynnig, a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio.

Darparodd Llywodraeth Cymru (Pennaeth Datblygu Busnes) ymateb ymgynghoriad i'r cais hwn yn ond yn go ddiweddar yn y broses ac ar ôl i'r pwyllgor lunio ei adroddiad. Roedd hwn yn amlinellu cefnogaeth y Llywodraeth i'r datblygiad. Bu i Adran Asedau a Datblygu Economaidd y Cyngor hefyd bwysleisio manteision y buddsoddiad o £10m, gan greu 150 o swyddi, a nodwyd eu bod yn cynnal trafodaethau ar sut i recriwtio staff o ardaloedd difreintiedig yn lleol, yn ogystal â chyn-gyflogeion gwaith First Milk a oedd wedi cau. Amcangyfrifwyd y byddai'r busnes yn cyfrannu £3m y flwyddyn i'r economi leol.

Derbyniodd y cais nifer fach o wrthwynebiadau/pryderon gan drigolion cyfagos (cyfanswm o bedwar) a chyfreithiwr, a gynrychiolai cystadleuydd yng nghadwyn gyflenwi a phroses cynhyrchu dofednod yn lleol a bryderai am yr effeithiau ar ddiwydiant dofednod gogledd Cymru. Pwysleisia adroddiad y Pwyllgor nad yw hyn yn ystyriaeth berthnasol o ran cynllunio, ac nad rôl y system gynllunio yw rheoleiddio cystadleuaeth.

Gwersi a Ddysgwyd: Mae'r cais hwn yn pwysleisio mor bwysig ydyw i'r ymgeisydd nodi manteision datblygiad (yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) ar gam cynnar a'u hyrwyddo er mwyn iddynt gael eu hystyried wrth bwysio a mesur y cais cynllunio. Yn ddelfrydol, pan fo Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i gefnogi ceisiadau, dylai'r llythyrau hyn gael eu derbyn cyn llunio Adroddiad y Pwyllgor fel bod mod rhoi ystyriaeth lawn iddynt pan fo swyddog cynllunio yn gwneud argymhelliad i gymeradwyo neu wrthod cais.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r safle hwn am iddo fod mewn defnydd diwydiannol am dros 60 mlynedd. Mae'r cais hwn yn dangos y ffaith y bu angen cyfres o asesiadau amgylcheddol (sŵn/aroglau/trafnidiaeth) i ddangos bod y defnydd newydd yn dderbyniol, hyd yn oed o ystyried mai datblygiad i aildefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol ydoedd.

Er nad oeddynt yn berthnasol i'r penderfyniad cynllunio, cododd y cais hwn gwestiwn ynglŷn â chystadleuaeth rhwng diwydiannau. Lle y gallech gael diwydiannau sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd yn clystyru, mae'n bwysig nodi'r manteision, megis cyflenwad gweithlu a ffynhonnell gynradd o ymchwil a datblygu, a byddwch yn ymwybodol o'r heriau wrth gynllunio'n strategol gyda busnesau presennol a newydd wrth geisio denu buddsoddiad i'r ardal.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n debygol y byddai'r cais yn galw am Drwydded Atal a Rheoli Llygredd a chynghorwyd yr ymgeiswyr i gychwyn ar drafodaethau cyn ymgeisio am drwydded gyda'r Swyddog Rheoleiddio cyn gynted â phosibl. Mae'r cais hwn yn pwysleisio'r ffaith bod gofyn i ymgeiswyr adolygu pa drwyddedau ychwanegol a allai fod angen ar gam cynnar rhag i hynny arwain at oedi annisgwyl wedi i'r caniatâd cynllunio gael ei roi.

Uned Fferm Laeth – Estyniad i'r uned fferm laeth bresennol i ddarparu llety i gyfanswm o 1,000 o wartheg llaeth, gan gynnwys codi a gosod parlwr godro 3 llawr, 3 adeilad ciwbiclau da byw, adeilad storio porthiant, 2 storfa slyri a thŵr storio dŵr, ynghyd â gwaith peiranyddol, tirweddu a gwelliannau i'r priffyrdd.

Awdurdod Cynllunio Lleol: Powys

Gwnaeth Fferm Lower Leighton gais i ehangu'r fferm laeth ym mis Chwefror 2011. Byddai'r datblygiad yn creu un o'r ffermydd llaeth mwyaf yng Nghymru ac ystyriwyd ei fod yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Roedd y cais yn cynnwys cyfres o ddogfennau ategol:-

Ffurflen Gais, Cynllun Lleoliad, Cynlluniau, Gweddlluniau, Datganiad Dylunio a Mynediad, Datganiad Effaith Amgylcheddol (yn cynnwys penodau ar Ansawdd Aer, Tirwedd ac Asesiad Effaith Weledol, Adnoddau Dŵr, Priddoedd, Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol), Asesiad Effaith Sŵn ac Asesiad Trafnidiaeth.

Canlyniad: O ystyried maint y cynnig, wynebai'r cais hwn nifer o heriau a chymhlethdodau.

- Roedd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Powys yn wreiddiol o blaid cymeradwyo'r cynnig, ond cafodd ei alw i mewn gan y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ym mis Ionawr 2012 a ddwedodd nad oedd gwybodaeth ddigonol i ddangos bod y cynllun yn dderbyniol.
- Yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus, argymhelliad yr Arolygydd Cynllunio oedd gwrthod rhoi caniatâd cynllunio (mis Mai 2013), yn bennaf am y byddai'r cynllun yn achosi 'niwed difrifol' i'r dirwedd a gosodiad asedau treftadaeth, yn ogystal â phryderon ynghylch lledu slyri, gwaredu gwastraff ac effaith ar amwynder.
- Ym mis Hydref 2013, bu i Weinidog Cynllunio Cymru, Carl Sargeant, wrthdroi argymhelliad yr Arolygydd. Cytunai Sargeant fod y prif ystyriaethau yn 'faterion perthnasol' ond barnodd fod y manteision economaidd yn drech na'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol, gan bwysleisio'r swyddi a gâi eu creu, y cynnydd mewn cynhyrchiant llaeth a chydymffurfiaeth â gofynion Polisi Cynllunio Cymru i gefnogi twf economaidd.
- Aeth y grŵp lles anifeiliaid, *The World Society for the Protection of Animals* (WSPA), yn ei flaen wedyn i herio penderfyniad y gweinidogion ar nifer o seiliau. Gwrthodwyd yr her gan y Llys Gweinyddol (mis Mehefin 2014), a ddadleuai fod y Gweinidogion wedi methu â rhoi 'sylw arbennig' i'r effaith a gâi'r datblygiad ar asedau treftadaeth. Derbyniodd y Llys fod y Gweinidogion wedi rhoi rhesymau clir a diamwys ac wedi rhoi sylw i ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu y dylid rhoi blaenoriaethau i fanteision economaidd y cynllun i'r gymuned leol a diwydiant llaeth Cymru yn gyffredinol ac na fu gwall yn y gyfraith. (*The World Society for the Protection of Animals v Gweinidogion Cymru* ac Ors. Rhif Achos: CO/17405/2013)

Cymrodd y cais dros dair blynedd rhwng iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn dyfarniad yr Uchel Lys ym mis Mehefin 2014.

Gwersi a Ddysgwyd: Er bod y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth estyniad y fferm laeth yn go unigryw, y mae'n pwysleisio'r angen hefyd i fod ag asesiadau cadarn i gefnogi'r cais oherwydd heb y rhain gallai'r cais fod wedi cael ei wrthod.

Mae'r achos hwn yn benodol yn pwysleisio y gall Gweinidogion Cymru gryfhau manteision economaidd cynlluniau, a'u bod yn gwneud hynny, a dangos y gall y manteision hyn fod yn drech nag effeithiau amgylcheddol mewn amgylchiadau penodol. Byddai'r cynnig yn creu tua 13 o swyddi, a rhoddodd y Gweinidog flaenoriaeth i'r rhain dros y gwrthwynebiadau amgylcheddol a chymdeithasol. Dadleuai'r Gweinidog hefyd y dylid rhoi mwy o bwys i'r swm sylweddol o £1m o fuddsoddiad. Mae'r penderfyniad yn dangos sut y mae ystyriaethau economaidd cymharol fach wedi goresgyn ystyriaethau amgylcheddol sylweddol, megis yr effaith ar yr asedau treftadaeth.

5. Y Sector Bwyd a Diod: Safbwynt Cynllunwyr

I gael gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithio sydd rhwng y Sector Bwyd a Diod a'r system gynllunio, cynhaliwyd cyfweiliadau ag arweinwyr timau cynllunio ledled Cymru. Gan edrych ar draws Cymru, cysylltwyd â phob un o'r 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i ofyn am gyfweiliad, a chynhaliwyd 13 o gyfweiliadau.

Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys 10 arweinydd tîm polisi cynllunio, dau reolwr cynllunio cyffredinol ac un arweinydd tîm rheoli datblygu¹¹. Am i'r prif bynciau trafod ganolbwyntio ar ba safleoedd sydd ar gael a'r cymorth strategol i'r sector Bwyd a Diod, swyddogion polisi cynllunio fu prif ffocws y cyfweiliadau. Cyflwynir prif negeseuon y cyfweiliadau fesul pwnc isod.

Canfyddiad Cynllunwyr o'r Sector Bwyd a Diod yn eu Hardal

Crynodeb: Canfyddiad Cynllunwyr o'r Sector a Chymorth i'r Sector

Cafwyd cyfradd ymateb dda o ystyried cyfyngiadau amser tynn yr astudiaeth. Roedd lefel wybodaeth y cynllunwyr ynglŷn â'r sector Bwyd a Diod yn amrywio'n sylweddol rhwng unigolion, a thra bo gan rai ddealltwriaeth gymharol dda o'r sector yn eu hardal, ni allai'r un gyfeirio at unrhyw daenlenni, rhestrau o fusnesau bwyd nac unrhyw ddogfen arall ynglŷn â'r sector yn eu Hawdurdod Cynllunio Lleol. Gallai'r eirfa a ddefnyddir gan gynllunwyr i ddisgrifio busnesau fod yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir gan y sector Bwyd a Diod; yn benodol, ni ddefnyddiwyd y term 'safle gradd bwyd' gan yr un cyfweilai wrth ymateb i'r cwestiynau. Roedd hyd yn oed y diffiniad o'r sector ei hun yn amrywio rhwng unigolion.

Roedd y cyfweleion yn glir yn eu cefnogaeth i unrhyw ddatblygiadau sy'n creu twf economaidd a thwf swyddi, ac roeddynt yn glir bod hyn yn ymestyn i'r sector Bwyd a Diod. Ond dau yn unig o'r 13 o gyfweleion a nododd fod y sector yn benodol o bwysig i'w hardal a chadarnhaodd bron pob un nad oedd cefnogaeth amlwg i'r sector mewn dogfennau polisi. Aeth rhai cyfweleion gam ymhellach, gan ddweud na ddylai cynllunio annog datblygu mewn un sector dros sector arall.

¹¹ Pwysig yw nodi bod teitlau swyddi yn amrywio rhwng un Awdurdod Lleol a'r llall felly disgrifiad cyffredinol yw'r uchod, nid rhestr o deitlau swyddi'r rhai dan sylw. Prif gyfrifoldeb arweinwyr tîm polisi cynllunio yw datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol cadarn, sy'n cynnwys rheoli'r gwaith o ddatblygu'r polisïau eu hunain a dogfennau'r sylfaen dystiolaeth sydd y tu cefn iddynt. Mae arweinwyr tîm rheoli datblygu yn arwain swyddogion y tîm sy'n ymdrin â cheisiadau cynllunio ac mae'r rheolwyr cynllunio cyffredinol wedi'u lleoli uwch ben y ddau arweinydd tîm, gan arwain y gwasanaeth cynllunio. Y rheolwyr cynllunio cyffredinol sydd yn gyfrifol am yr adran gyfan, gan gynnwys polisi, rheoli datblygu a detholiad o swyddogaethau ychwanegol.

Canlyniadau

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'r sector Bwyd a Diod yn eu hardal, ni chyfeiriodd y cynllunwyr at unrhyw ddiffiniad unigol o'r sector. Er enghraifft, ni chyfeiriodd yr un cyfwelai at godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol na chategorïau busnes yn ôl diffiniadau'r rhestrau o safleoedd a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. O ganlyniad, roedd y mathau o fusnesau a drafodwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n sylweddol, wrth i'r cyfweleion drafod popeth o fanwerthu bwyd, prydau parod poeth a siopau fferm, i warysau dosbarthu Tesco ac amaethyddiaeth. Ni chyfeiriodd yr un o'r cynllunwyr at y term 'safle gradd bwyd'. Yn hytrach, tueddai'r cynllunwyr i drafod y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, busnesau sy'n dod o dan ddefnydd B1, B2 a B8¹², adeiladau amaethyddol neu fusnesau unigol.

Pan ofynnwyd iddynt am fusnesau yn eu hardal, gwyddai'r rhan fwyaf o'r cynllunwyr am gwmnïau pobi, bragdai a chanolfannau dosbarthu, a gallai rhai enwi detholiad o fusnesau uchel eu proffil, ond ni chynigodd yr un daenlen o fusnesau i gyfeirio ati yn eu Hawdurdod Cynllunio Lleol (er i un ddweud y gallai rhestr gael ei chreu yn gymharol hawdd). Roedd enghreifftiau o rai o'r busnesau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys KK Fine Foods (Glannau Dyfrdwy), Burger Manufacturing Company (Powys), Portoise Bakery (Pen-y-bont ar Ogwr) a Hallets Cider (Caerffili).

'Nid yw'r sector bwyd yn rhan o'n ffocws... Credaf ein bod yn cynhyrchu llawer o fwyd, defaid, cig, dofednod a chynhyrchu wyau hefyd. Rydym yn cynhyrchu, ac mae llawer o siopau fferm a diwydiannau cartref, mêl ac ati. Rwy'n gwybod bod (Busnes A) yn ehangu yn sgil contract gyda Tesco ac mae gennym (Busnes B) yn ein hardal...'

Dadansoddiad

Nid syndod yw'r gwahaniaeth yn lefelau gwybodaeth y cynllunwyr am y sector bwyd, o ystyried bod eu swyddi'n cwmpasu amrywiaeth eang o gyfrifoldebau ac nad ydynt yn arbenigwyr yn y sector Bwyd a Diod, ac yn y rhan fwyaf o achosion heb fod yn rhan o dîm datblygu economaidd y Cyngor. Ond y mae'n pwysleisio, os yw'r sector eisiau i bolisi cynllunio fod yn wirioneddol gefnogol i'w busnesau, dylai'r sector sicrhau bod swyddogion polisi cynllunio yn gwybod beth yw'r sector a sut i fod yn gefnogol iddo. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau bod adrannau cynllunio yn gwybod am y busnesau yn eu hardal a sicrhau bod y sector yn cyfrannu at y broses o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

¹² Mae esboniad o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd i'w weld yn Adran 3.

A yw Cynllunio yn Gefnogol i'r Sector Bwyd?

Canlyniadau

Roedd y cynllunwyr yn glir y bu galw cynyddol dros y degawd diwethaf i gynllunio weithredu fel galluogydd ar gyfer twf economaidd ac y dylai manteision economaidd datblygiadau gael eu cydnabod, a'u bod yn cael eu cydnabod, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Ond meddai bron i bob un o'r cyfweleion nad ydynt yn teimlo y caiff y sector Bwyd a Diod ei gefnogi'n benodol. Aeth rhai cyfweleion gam ymhellach gan ddweud na all, ac na ddylai cynllunio annog un math o dwf economaidd dros fath arall.

Meddai dau gyfwelai bod y sector yn benodol o bwysig. Yn Sir y Fflint, ystyriwyd bod y sector bwyd yn bwysig, ac mae polisïau yn eu lle i alluogi twf yng Nglannau Dyfrdwy heb lawer o gyfyngiadau cynllunio. Yn Sir Fynwy, nodwyd bod y sector bwyd yn bwysig, a chyfeiriwyd yn benodol at nifer y busnesau bwyd, gŵyl fwyd y Fenni a'r potensial i'r ardal gael ei hyrwyddo fel cyrchfan twristiaeth bwyd.

Dadansoddi

Mae data'r cyfweiliadau cynllunio yn ategu gwybodaeth yr adolygiad o bolisi cynllunio gan nodi diffyg cefnogaeth benodol i'r sector mewn dogfennau polisi cynllunio, ond mae'n mynd gam ymhellach gyda rhai cyfweleion yn awgrymu na ddylent hyrwyddo un sector dros sector arall.

'Rydym yn hyblyg iawn i bob busnes sydd angen safleoedd ac sy'n cynnig swyddi a chyfalaf a thwf ond nid ydym yn targedu bwyd yn unig – rhown ystyriaeth i unrhyw un sydd â'r cymysgedd iawn o dwf a swyddi.'

'Ni theimlwn fod gan y system gynlluniau unrhyw faterion i'w hystyried fan hyn [pan ofynnwyd a oes unrhyw beth y gallai'r system gynllunio wneud i gynyddu cefnogaeth i'r sector bwyd] – nid yw'r system gynllunio yn ffafrio unrhyw sector mewn gwirionedd. Petai ffyniant ym maes cynhyrchu bwyd, byddai'r system gynllunio yn ei gefnogi.'

Cynnwys y Sector Bwyd mewn Adolygiadau Tir Cyflogaeth ac wrth Ddatblygu Polisi

Canlyniadau

'Nid ydym wedi ymgynghori'n uniongyrchol â'r sector bwyd [wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth]. Ond efallai bod gan grŵp gweithgynhyrchu canolbarth Cymru aelodau o'r sector bwyd – dwn i ddim – gallai'r sector wneud y tro â llais penodol os yw hyn yn ystyriaeth – neu o leiaf rywun sy'n gweiddi'n uwch.'

'Gallai busnesau gydweithio fesul sector a dweud wrthym beth sydd ei angen arnynt.'

'Os byddai busnesau unigol neu hyd yn oed grwpiau yn dod atom, bydden wedyn yn deall eu hanghenion – rydym yn hapus i ymgysylltu ac ymgynghori.'

Dwedodd dau o'r 13 o gynllunwyr y rhoddir ystyriaeth benodol i'r sector bwyd mewn Adolygiadau Tir Cyflogaeth neu bolisiâu, er bod grwpiau busnes cyffredinol yn cael eu targedu wrth ymgynghori ynghylch Adolygiadau Tir Cyflogaeth ac wrth ddatblygu Polisiâu Datblygu Lleol. Meddai un cyfwelai fod eu Hadolygiad Tir Cyflogaeth yn rhannu'r galw fesul sector felly y mae'n ystyried bwyd ochr yn ochr â phob sector arall yn y ffordd honno. Un cyfwelai yn unig a ddwedodd fod safle cyflogaeth wedi'i neilltuo at ddefnydd bwyd yn benodol (er ei bod yn wybyddus bod canolfannau a pharciau bwyd mewn ardaloedd eraill).

Meddai sawl cyfwelai y byddai'n ddefnyddiol pe byddai cymdeithas o fusnesau bwyd yn dod yn ei blaen i nodi bpa fathau o safleoedd sydd eu hangen ac ym mha leoliadau, er mwyn i'r wybodaeth hon gael ei hystyried wrth lunio polisi. Yn gyffredinol, ystyrid mai

prin yw'r cyswllt sydd gan y sector Bwyd a Diod yn y broses gysylltu a phrin y mae'n ymateb i ddogfennau ymgynghori ar bolisiâu cynllunio. Awgrymodd un cyfwelai mai rhywbeth i'w groesawu fyddai cael cynrychiolydd y sector bwyd, ac y byddai o gymorth i gydweithio ar wahanol faterion cynllunio, ond nad oedd yn siŵr â phwy i gysylltu ynglŷn â hyn ers diddymu Awdurdod Datblygu Cymru.

Dadansoddi

Mae'r rheswm am y canfyddiad o ddiffyg cyswllt y sector Bwyd a Diod yn y broses o lunio polisi yn aneglur, a dylid ymchwilio i hyn. Y mae'n bosib nad yw'r sector yn gwybod beth yw'r ffordd orau i ymgysylltu, neu ba bryd y caiff dogfennau ymgynghori eu cyhoeddi. Efallai bod rôl i'r Ffederasiwn Bwyd a Diod a/neu Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ymateb i'r dogfennau hyn neu hysbysu sefydliadau eraill i sicrhau yr ymgynghorir â busnesau lle bo hynny'n berthnasol. Hyd yn oed pe byddai'r dogfennau ymgynghori hyn yn hysbys, efallai na fyddai gan fusnes unigol yr amser neu'r sgiliau i ymateb yn ystyrlon i ymgynghoriad; Adolygiad Tir Cyflogaeth, er enghraifft. Yn olaf, efallai bod rhywfaint o ymgysylltu'n digwydd, ond nad yw'r cyfweleion yn gwybod am hynny. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'r canfyddiad o ddiffyg cyswllt yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan gynrychiolwyr y sector o ran ymgymryd ag ymatebion i ymgynghoriadau a sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymwybodol o'r galw am safleoedd gan y sector hwn; er enghraifft, yr Awdurdodau hynny sy'n cynnal Adolygiadau Tir Cyflogaeth ac yn datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd.

'Mae gennym lawer o safleoedd yn barod i'w datblygu, mae llawer yn safleoedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru... mae gennym dir ar gyfer y sector bwyd os ydynt ei angen – fe wnawn alluogi buddsoddiad – rydym eisiau swyddi a buddsoddiad.'

Y Safleoedd sydd ar Gael ar gyfer Busnesau'r Sector Bwyd a Diod

Canlyniadau

Pwysleisiai pob cyfwelai bod tir cyflogaeth wedi'i nodi a'i asesu yn yr Adolygiadau Tir Cyflogaeth a bod tir cyflogaeth wedi'i neilltuo yn y Cynlluniau Datblygu Lleol. Dywedodd y cyflogeion, felly, bod tir ar gael i'r sector Bwyd a Diod fel sydd i bob sector. Nododd llawer o'r cyflogeion, yn sgil y dirwasgiad, y bu'r defnydd o dir cyflogaeth yn gymharol araf dros yr wyth

'Mae gan goridor yr M4 lwyth o dir ac i'r gogledd yn y cymoedd hefyd, mae digonedd o dir cyflogaeth wedi'i neilltuo ar gyfer cynhyrchu bwyd – nid yw hon yn ystyriaeth yn ein golwg ni.'

'Rydym yn gwneud rhywfaint o ymgynghori – mae gennym fforwm o randdeiliaid allweddol, er enghraifft. Rydym hefyd yn siarad gyda chydweithwyr ym maes datblygu economaidd – a bwrdd cynllunio mentrau mawr hefyd – ond nid ymgynghoriad penodol ar ffurf arolwg gyda busnesau. Roedd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cynnwys rhywfaint o ymgynghori strwythuredig.'

'Y broblem yw eu bod [Adolygiadau Tir Cyflogaeth] yn aml yn defnyddio tueddiadau cenedlaethol o fath Experian a heb ddefnyddio data lleol, felly nid yw eu [amcanestyniadau o'r galw] bob amser yn gynrychioliadol iawn o amodau lleol.'

mlynedd diwethaf ac ni chredai'r un o'r cyflogeion fod prinder o dir cyflogaeth yn gyffredinol ar hyn o bryd.

Lle y bo'n bosibl, nodwyd y cysylltir â busnesau lleol i helpu i ragweld maint y galw am safleoedd cyflogaeth a'r math o safleoedd. Ond nododd rhai o'r cyflogeion, er yr ymdrechion gorau, nid hawdd bob amser oedd cael synnwyr o'r gwir alw am dir cyflogaeth a ph'un a oedd y tir sydd ar gael yn addas i fusnesau yn eu hardal. Nododd un cyfwelai nad yw Adolygiadau Tir Cyflogaeth bob amser yn rhoi sylw i'r galw yn lleol am safleoedd ac meddai cyfwelai arall y caiff faint o ddefnydd a fu yn y gorffennol o safleoedd ei ddefnyddio i ragweld tueddiadau i'r dyfodol (a all fod yn broblematig os y bu'r defnydd yn flaenorol yn isel am fod y safleoedd

sydd ar gael yn anaddas).

Meddai'r rhan fwyaf o'r cyfweleion mai prin iawn yw'r hap-safleoedd addas sydd ar gael at ddefnydd cyflogaeth, a bod y rhan fwyaf o ddefnydd cyflogaeth yn cael ei ddatblygu ar safleoedd cyflogaeth. Roedd amserlenni adolygu a diweddaru'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth yn amrywio'n sylweddol o'r naill Awdurdod Cynllunio Lleol i'r llall; darparai rhai ddiweddariad bob blwyddyn, ac eraill yn dueddol o wneud un prif ddiweddariad oddeutu pob 3-5 mlynedd. Roedd amllder y diweddariadau yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael (amser ac ariannol).

'Fesul tamaid, mae tai yn cymryd oddi ar y tir a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth ac mae angen inni fuddsoddi mewn safleoedd presennol. Mae angen i'r broses gynllunio gydnabod bod perchnogion yn gadael i eiddo ddirywio hyd nes eu bod yn methu yn y farchnad, a mynd yn adfeilion, fel y gallant wedyn geisio newid y defnydd ar gyfer tai, drwy ddangos nad oes galw am eu heiddo sydd wedi dirywio er mwyn gwneud arian o dai.'

rhywfaint o dir maes glas. O ran arwynebedd tir, amcangyfrifwyd y byddai lle i hyd yn oed y datblygwyr bwyd mwyaf a chlystyrau Bwyd a Diod mawr a byddai lleoliad y safleoedd hyn wrth ymyl y rhwydwaith traffyrdd yn fuddiol i gyflenwi deunydd crai a dosbarthu. Ond nodwyd y byddai angen gwaith adfer ar rai o'r safleoedd hyn er mwyn iddynt fod yn barod i'w defnyddio (e.e. cyn-safleoedd gwaith glo). Yng Nghaerdydd, nodwyd mai yn y de y mae'r rhan fwyaf o dir diwydiannol a bod rhywfaint o berygl o lifogydd yn yr ardal hon, ac mae heriol weithiau, mewn ardaloedd eraill o Gaerdydd, yw diogelu tir cyflogaeth rhag cael ei ddefnyddio gan ddatblygwyr tai. Nododd nifer o gyfweleion bod rhai o'r safleoedd a'r parciau diwydiannol yng Nghymru ychydig yn 'flinedig' ac y byddai'n fuddiol eu hadnewyddu.

Pan ofynnwyd iddynt am adeiladau gwag, pwysleisiodd sawl cyfwelai nad oedd angen cais cynllunio pan gâi adeilad ei adael yn wag ac weithiau ni fydd angen caniatâd i'w aildefnyddio, felly nid yw'n rhywbeth y mae cynllunwyr yn dueddol o wybod amdano. Roedd gan gynllunwyr wybodaeth dda am dir sydd ar gael, ond nid am adeiladau sydd ar gael.

Meddai sawl cyfwelai fod pwysau'n aml gan ddatblygwyr tai i ddefnyddio safleoedd a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth ar gyfer tai newydd, ac nad oedd bob amser yn bosibl diogelu'r tir at ddefnydd cyflogaeth.

O ran lleoli safleoedd, meddai sawl cyfwelai o Awdurdodau Lleol ar hyd yr M4 fod nifer fawr o safleoedd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth ar hyd y 'parth' hwn, gan gynnwys cannoedd o hectarau o dir llwyd a

'Byddai angen inni greu cyswllt rhwng datblygu economaidd a chynllunio datblygu i wneud yn siŵr y caiff y defnydd tir cywir ei ddarparu lle mae ei angen.'

'Mae angen tystiolaeth arnom, a chroesawn hynny – mae angen arweiniad arnom ar faint y galw i'r dyfodol, a pha fath o alw, fel bod modd inni neilltuo tir yn unol â hynny. Byddwn yn ceisio gweddu i ofynion arbennig – a oes angen unedau bach i fusnesau newydd neu siediau mawr ac ati – mae angen inni nodi'r galw a'i ateb.'

Dadansoddi



Nodai'r cynllunwyr yn gyson bod digonedd o safleoedd cyflogaeth yn eu hardal a bod nifer arbennig o fawr o safleoedd ar hyd coridor yr M4. Felly, mewn egwyddor, y mae nifer fawr o safleoedd ar gael i'r sector Bwyd a Diod (er nad ydynt wedi'u neilltuo felly). Lle y mae ffactorau megis tir wedi'i halogi, gallai cost adfer y tir fod yn rhwystro'r safleoedd rhag cael eu datblygu, yn arbennig gan y gallai lefel y gwaith adfer fod yn uwch, i sicrhau

bod safle yn addas fel safle gradd bwyd yn hytrach nag ar gyfer gwaith cydosod electronig neu ddepo dosbarthu er enghraifft. Yn gyffredinol, pan fetho'r farchnad gan olygu bod safleoedd cyflogaeth wedi'u neilltuo yn annhebygol o ddod yn eu blaen, mae'n debygol y byddai angen cyfraniad gan y sector cyhoeddus er mwyn dod â'r safleoedd hyn yn eu blaen, ac felly y mae'n bosibl bod faint o dir cyflogaeth datblygiadol sydd ar gael yn llai na'r hyn a ragwelir.

Serch hynny, dylem nodi y dylai Adolygiadau Tir Cyflogaeth fod yn rhoi ystyriaeth i'r materion uchod, felly mewn egwyddor ni ddylai fod yn wir bod rhannau sylweddol o dir a neilltuwyd at gyflogaeth heb fod yn hyfyw. Felly, er ei bod yn bosibl bod halogiad y tir yn effeithio ar rai safleoedd, nid yw hyn yn newid y ffaith bod cynllunwyr yn gyffredinol yn teimlo bod cyflenwad sylweddol o dir cyflogaeth ar gael.

Felly'r cwestiynau i'r sector Bwyd a Diod fyddai:

- A oes safleoedd wedi'u neilltuo at gyflogaeth sy'n addas i'r sector bwyd o ran maint, lleoliad, a darpariaeth seilwaith a gwasanaethau (e.e. cyfleustodau)?
- A oes unrhyw beth a fyddai angen ar fusnes Bwyd a Diod mewn safle sy'n wahanol i unrhyw ddiwydiant arall, ac felly'n cyfiawnhau ystyriaeth arbennig mewn Adolygiadau Tir Cyflogaeth?
- A yw'r duedd gyffredinol mai prin yw'r defnydd cyflogaeth ar hap-safleoedd yn wir ar gyfer y sector Bwyd a Diod?

Cam allweddol y gellid ei gymryd yw sicrhau bod y sector Bwyd a Diod yn ei gyfanrwydd yn chwarae mwy o ran yn y broses o ddatblygu polisïau cynllunio, er mwyn ateb y cwestiynau uchod ar gyfer y diwydiannau penodol mewn ardal awdurdod lleol benodol.

Beth yw'r Materion Allweddol sy'n Gysylltiedig â Cheisiadau Cynllunio ar gyfer y Sector Bwyd a Diod

Crynodeb: Ymgysylltu â'r Sector, y Safleoedd sydd ar Gael ar gyfer Busnesau'r Sector Bwyd a Diod a Materion yn Ymwneud â Cheisiadau Cynllunio

Yn gyffredinol, nododd y cyfweleion na fu i'r sector Bwyd a Diod ymgysylltu'n sylweddol â'r broses gynllunio, gan chwarae rhan gymharol fach yn y broses o ddatblygu Adolygiadau Tir Cyflogaeth a pholisïau cynllunio. Bu'r cynllunwyr hefyd yn annog busnesau'r sector Bwyd a Diod i fanteisio ar y gwasanaethau cyn ymgeisio a gynigir gan Gyngorau cyn cyflwyno cais. Nododd y cyfweleion y gallai'r cyswllt hwn helpu cynllunwyr i sicrhau bod safleoedd digonol ac addas ar gael i fusnesau'r sector Bwyd a Diod ehangu ac adleoli.

Mae nifer fawr o safleoedd cyflogaeth ledled Cymru a gallai'r rhain fod ar gael i fusnesau'r sector Bwyd a Diod. Er hyn, nid oedd yn glir p'un a oedd y safleoedd hyn yn addas i fusnesau'r sector Bwyd a Diod o ran maint, lleoliad, cyfleusterau a seilwaith (ymysg ystyriaethau eraill). Prin iawn yw'r safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y sector Bwyd a Diod yn benodol.

O ran ceisiadau cynllunio, gwybodaeth gyfyngedig oedd gan y cyfweleion am y rhain am mai swyddogion polisi oedd y rhan fwyaf. Ond yn gyffredinol canfyddiad y cyfweleion oedd mai cymharol fach oedd yr ystyriaethau yn gysylltiedig â safleoedd y sector Bwyd a Diod, yn arbennig yn achos safleoedd sydd wedi'u lleoli ar stadau diwydiannol. Lle'r oedd ystyriaethau'n codi, roedd y rhan fwyaf yn gysylltiedig â seilwaith (yn arbennig mynediad, cyfleustodau a draenio) yn ogystal ag ystyriaethau llygredd posibl (aer ac aroglau). Yn achos dofednod, nodwyd y gallai fod ystyriaethau yn gysylltiedig â nitradau a ffosffadau yn gollwng i afonydd.

Engbreiffiau o ystyriaethau cynllunio:

Ni allai llawer o'r cyfweleion drafod ystyriaethau'n ymwneud â cheisiadau cynllunio am eu bod yn dueddol o fod o gefndir polisi yn hytrach na rheoli datblygu. Ond gallai sawl cyfwelai enwi busnesau a oedd wedi ehangu'n llwyddiannus yn eu hardal yn ddiweddar. Nododd nifer o gyfweleion nad oedd llawer o ystyriaethau difrifol gyda cheisiadau'r sector Bwyd a Diod, yn arbennig yn achos datblygiadau wedi'u leoli ar barciau diwydiannol presennol.

Yn y cyfweiliadau hynny lle y trafodwyd ystyriaethau, nodwyd bod canlynol yn ystyriaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio ar gyfer y sector Bwyd a Diod:

- mynediad ar gyfer cynhyrchwyr mawr
- draenio a llifogydd yn ffactorau sy'n cael eu hystyried mwyfwy yn y system gynllunio a gallant fod yn anhawster i'r sector hwn
- cyflenwad dŵr
- aroglau ac ansawdd aer
- gall gwastraff fod yn ystyriaeth i rai diwydiannau.

Ond cyfeiriwyd at yr ystyriaethau hyn yn bennaf fel materion sydd angen mynd i'r afael â hwy drwy gais cynllunio, yn hytrach na fel materion a fyddai o anghenraid yn atal datblygiad rhag mynd yn ei flaen.

Nododd un cyfwelai y cafodd y Cyngor yn Swydd Henffordd anhawster yn benodol gyda siediau dofednod yn gollwng nitradau a ffosffadau o dail dofednod i mewn i'r afonydd, yn arbennig Afon Gwy, a bod hyn wedi arwain at foratoriwm ar siediau dofednod yn agos at afonydd er mwyn atal y mater rhag gwaethygu. Meddai'r cyfwelai y gallai rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru fod wedi cael profiad o'r mater hwn yn yr un modd. Nododd y cyfwelai fod dofednod yn fusnes mawr yng Nghymru wledig ac nad oes yr un awdurdod cynllunio eisiau annog yn erbyn y diwydiant, ond mae angen ystyried y mater yn ofalus i sicrhau nad yw'r materion amgylcheddol hyn yn effeithio ar y busnesau sydd ar gael i ddatblygu dofednod yn y dyfodol.

Ar y llaw arall, gall y sector Bwyd a Diod hefyd gael ei ddylanwadu gan geisiadau eraill o'i amgylch, a gall osgoi gwrthdaro drwy ddarparu ymatebion yn ystod ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio eraill. Un enghraifft a roddwyd oedd yng Nghaerffili lle y disgrifiodd cyfwelai gais cynllunio a gyflwynwyd am waith glo brig yn agos at safle gweithgynhyrchu bwyd. Gwrthwynebai'r gweithgynhyrchwr y cais ar y sail y gallai arwain at ronynnau yn eu cynnyrch ac meddai'r cyfwelai i'r cais gael ei wrthod am y rheswm hwn. Yn gyffredinol, fel yn achos polisi cynllunio, nododd nifer o gyfweleion y byddai'n ddefnyddiol i fusnesau'r sector Bwyd a Diod sy'n dymuno adleoli neu ehangu ymgysylltu mwy â'r broses cyn ymgeisio a gynigir gan y Cyngorau. Nodwyd nad yw rhai busnesau yn cynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno cais.



6: Y Broses Gynllunio o Safbwynt Busnesau Bwyd a Diod

Cyflwyniad:

Mae'r adran ganlynol yn ddadansoddiad thematig o'r 20 o gyfweiliadau a gynhaliwyd â busnesau gan ddefnyddio dull ymchwil ffôn.

I ganfod yr 20 o gyfweleion hyn, cysylltwyd â 94 o fusnesau a oedd wedi'u nodi fel rhai sy'n gweithredu yn y sector cynhyrchu a gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru. Gan mai gwaith ymchwil ynglŷn â safleoedd gradd bwyd yw hwn, gofynnwyd cwestiwn cynradd wedyn i weld a fu'r busnesau yn ymwneud â'r broses gynllunio yn ystod y 5 mlynedd blaenorol, neu'n ystyried gwneud hynny, fel bod eu profiad yn ddigon cyfredol i fod yn berthnasol. O'r cwestiwn hwn, nodwyd 20 o fusnesau sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn.

Nid yw 20 o fusnesau yn ddigon i ffurfio unrhyw ddadansoddiad ansoddol dilys ac felly cynhaliwyd dadansoddiad thematig i nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn y cyfweiliadau.


O'r busnesau hyn, gweithgynhyrchwyr bwyd oedd 17 ohonynt, a dosbarthwyr oedd y tri arall. O'r gweithgynhyrchwyr, cwmnïau pobi a chynnyrch llaeth oedd nifer ohonynt (5 a 4 yn eu trefn); roedd mathau eraill o brosesu bwyd yn cynnwys cig ($n = 1$), confennau ($n = 2$), a busnesau mwy arbenigol ($n = 4$) yn ogystal ag un bragdy.

Gweithredai mwyafrif y busnesau o un safle ($n = 14$); roedd tri yn gweithredu ar draws dau safle, ac gweithredai dau gwmni (dosbarthwyr ill dau) o bum safle.

Mae'r adran isod yn trafod y prif themâu hyn:

- caiff gwaith a wneir cyn i ganiatâd cynllunio gael ei roi ei ystyried yn gostus a pheryglus gan rai busnesau.
- ceir canfyddiad ymysg busnesau nad yw'r amser sydd ei angen i gael cymeradwyaeth cyn cynllunio a chymeriadaeth cynllunio yn glir a'i fod yn go amrywiol.
- cyfathrebu rhwng timau cynllunio a busnesau.
- gallai systemau llif gwaith prosiect ar sail meddalwedd gynyddu pa mor weladwy yw'r broses cyn cynllunio i fusnesau pe gallai'r busnesau fewngofnodi i'r systemau hyn i weld cynnydd drwy borth ar y we.
- gallai'r arfer o nodi safleoedd gradd bwyd gael ei gwella drwy greu rhestr neu gyfeiriadur o safleoedd gradd bwyd yn hytrach na safleoedd dosbarth B cyffredinol.
- gellid defnyddio iaith symlach wrth i gynllunwyr gyfathrebu â busnesau.

Ffigur 6.1: Trosolwg o feintiau'r samplau ar gyfer llwybrau'r categorïau



Roedd busnesau a fu'n ymwneud â chynllunio yn y pum mlynedd diwethaf hefyd yn debygol i wneud addasiadau pellach i'w safleoedd yn y dyfodol agos. Gallai hyn fod oherwydd bod y broses gynllunio yn helpu i ganfod busnesau twf sy'n buddsoddi cyfalaf ac yn ehangu cyfleusterau. Gallai hyn fod yn ddangosydd defnyddiol i wasanaethau busnes Llywodraeth Cymru ganfod cwmnïau twf uchel. Nid ydym wedi ymchwilio ymhellach i'r gydberthynas bosibl hon yn yr adroddiad hwn.

Costau Ariannol Cynllunio

Drwy'r cyfweiliadau â'r cynllunwyr, gwelwyd bod ymgynghori cyn ymgeisio yn bwysig i helpu i'r cais cynllunio symud yn ei flaen yn effeithlon. Ond y mae busnesau yn aml yn ystyried bod unrhyw waith a wneir cyn cael caniatâd cynllunio yn gost neu'n risg, ac nid oeddynt bob amser yn cydnabod gwerth ymgynghori cychwynnol. Yn bresennol, mae ymgynghori cyn ymgeisio yn rhad ac am ddim yng Nghymru, ac nid yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn codi tâl am y gwasanaeth hwn. Gall yr ymgynghori hwn arbed amser ac arian sylweddol i fusnesau yn nes ymlaen drwy sicrhau y rhoddir sylw i ystyriaethau cynllunio ynglŷn â lleoliad a dyluniad y safle o'r cychwyn cyntaf. Gall hefyd helpu i gael eglurhad ar ba wybodaeth sydd ei hangen wrth wneud cais, gan osgoi paratoi dogfennau diangen a sicrhau bod costau'r holl ddogfennau wedi'u hystyried yn y gyllideb o'r cychwyn. Felly mae angen rhywfaint o addysgu busnesau i esbonio manteision ymgynghori cyn ymgeisio a mynd i'r afael ag unrhyw gam-ganfyddiadau ynglŷn â'r broses.

Mae'r ymagwedd at ddogfennau'r cais, efallai, yn amlygu gwahaniaeth sylfaenol yn ymagwedd y cynllunwyr a'r busnesau at y broses gynllunio. Hoffai'r cynllunwyr gael cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad da, tra bo busnesau yn edrych ar broffil cost/risg cynllunio, ac yn dymuno lleihau buddsoddiad mewn cais cynllunio (e.e. arolygon ecoleg, penseiri, arolygon sŵn ac ati) oherwydd os na chânt ganiatâd, bydd yr arian hwnnw wedi'i golli.

Wrth gwrs, mae'n statudol ofynnol i gynllunwyr ystyried a chefnogi datblygu economaidd, a bod yn gytbwys yn eu gofynion. Ond mae cost paratoi dogfennau technegol yn bryder allweddol i fusnesau, a thra bo'n rhaid i gynllunwyr fod yn gytbwys, canfyddiad busnesau'r sector Bwyd a Diod yw nad yw cynllunwyr o anghenraid yn deall effaith y gost sydd ynghlwm wrth baratoi dogfennau, nac yn ystyried bod costau o'r fath yn rhwystr posibl i fusnes rhag buddsoddi.

Nododd y busnesau fod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau contractwyr arbenigol proffesiynol, megis peirianyddion a phenseiri, i greu'r dogfennau, y dyluniadau a'r cynlluniau technegol angenrheidiol, a chyfeiriwyd at hyn yn aml fel rhan fwyaf costus y broses.

Meddai tri ymatebydd hefyd fod glynu wrth yr amodau arbennig a'r 'cyfaddawdau' a osodwyd arnynt yn ystod y broses gynllunio hefyd wedi bod yn ddrud. "*Sefyllfa'r iâr a'r wy*" oedd disgrifiad un ymatebydd i'r ymrwymiad ariannol sydd ei angen er mwyn derbyn canlyniad ansicr.

"Cyn ichi allu gwneud cais, mae'n rhaid bod gennych bensaer i wneud yr holl ddyluniadau ...[wedyn] ymgynghorydd arbenigol i'w ddwyn ynghyd. Roedd y ffioedd hynny'n sylweddol ond roedd y ffi gynllunio ei hun yn briodol. Er enghraifft, y ffi gynllunio yn 2011 oedd £3,000 ond cost ein ffioedd eraill oedd £8,200."

"Nid oes modd ichi gael penderfyniad mewn egwyddor heb gyfres gynhwysfawr o gynlluniau, sy'n rhwystredig iawn oherwydd nid ydych eisiau buddsoddi'r amser na'r arian os na chewch rywbeth yn ôl. Sefyllfa'r iâr a'r wy yw hi."

"Yn achos ceisiadau cynllunio, mae'n rhaid ichi gyflogi ymgynghorwyr a mynd i gostau gorbenion cyn ichi gael gwybod y cewch ganiatâd cynllunio. Mae gorfod gwario cymaint o arian cyn iddynt gael gwybod y canlyniad yn beth sy'n digalonni busnesau."

Teimlai rhai busnesau y gallai cynllunwyr ddangos mwy o ystyriaeth ynglŷn ag effeithiau ariannol eu amodau arfaethedig:

“Credaf fod angen i gynllunwyr gael dos o realiti oherwydd gall fod gormod o reolaeth weithiau; mae angen iddynt ystyried realiti ariannol busnes.”

Y rhai a oedd heb eu cyfyngu gymaint gan faich ariannol oedd y cwmnïau mwy a allai (efallai) fforddio gweithio gydag ymgynghorwyr cynllunio a thimau cynghori allanol, ac felly roedd yn fwy tebygol mai profiad y busnesau hyn oedd bod y broses ymgeisio yn fwy syml. Gallai fod effaith ‘arbedion maint’¹³ hefyd, lle mae gan fuddsoddiadau cyfalaf mawr gostau cynllunio anghymesur o isel fel rhan o fodel cyffredinol o gostau’r datblygiad. Yn sgil hynny, gallai proffil risg cais gwrthodedig hefyd fod yn is mewn achos o’r fath.

“Rydym wedi bod yn gwneud hyn am y tair blynedd diwethaf a bu’n gymharol syml... Bu llawer o waith wrtho ond cawsom ddigonedd o ymgynghorwyr a bu inni gynllunio ein cais ymlaen llaw yn ofalus iawn... Gwnaed y cyfan yn unol â’r gweithdrefnau cywir.”

Er y teimlai pedwar busnes sy’n dymuno ehangu neu adleoli mai cymorth ariannol, megis grantiau’r llywodraeth tuag at godi adeiladau, fyddai’r math mwyaf buddiol o gymorth, roedd grantiau yn arwain at faterion technegol tebyg i’r broses ymgeisio i’r rhai heb y cyfalaf ymlaen llaw i gyfateb i ddatblygiadau cyllid grant.

“Credaf mai’r ffactor allweddol yn achos rhai o’r grantiau yw’r modd y maent wedi’u strwythuro... Mae’n beth da bod cyllid ar gael ond yn gyffredinol mae angen cyllid arnoch am nad oes gennych y cyfalaf ymlaen llaw. Mae cael grantiau lle mae’n rhaid ichi wario cyn ichi allu hawlio yn beth anodd iawn.”

Cyfeiriodd rhai busnesau hefyd at yr angen am fwy o gymorth a gwybodaeth ynglŷn â chwblhau ceisiadau grant, megis “*gwasanaeth ymgynghori am ddim i fusnesau i’w helpu i gwblhau’r cais.*”

¹³ Mae ‘arbedion maint’ yn cyfeirio at fanteision pan fo cost/risg yn dod yn fwy effeithlon wrth i faint y cynhyrchu neu’r buddsoddiad cyfalaf gynyddu.

Yr Amserlen Gynllunio

Amrywiai'r amser a gymerwyd i'r Awdurdod Lleol wneud penderfyniad ar gais wedi iddo gael ei gyflwyno o bum wythnos i chwe mis. Roedd yr ymatebydd a fu'n destun penderfyniad chwe mis yn priodoli hyn i'r angen i newid y cynllun ac oedi rhwng gwneud addasiad a'r addasiad yn cael ei adolygu gan y cynllunwyr. Teimlwyd bod yr ail fater hwn yn beth arbennig o rwystredig:

"Mae angen ichi gael pawb o amgylch y bwrdd cyn gynted â phosibl fel bod pawb yn ymwybodol ac yn deall y sefyllfa. Mae'n wirion bod yn rhaid i un darn o waith papur aros i ddarn arall o waith papur cyn bod modd iddynt wneud unrhyw beth."

"Aeth yn araf iawn, o ystyried ei fod yn adeilad bwyd mewn parc wedi'i ddynodi ar gyfer bwyd. Roedd y cylchoedd y bu'n rhaid inni neidio drwyddynt yn chwerthinllyd. Bu'n rhaid inni wneud llawer o newidiadau i'r cynllun oedd gennym ar gyfer pobl leol. Byddai rhai o'r rhwystrau wedi bod yn ddigon i rai pobl roi'r gorau iddi yn llwyr. Teimlai fel nad oeddynt eisiau inni greu swyddi."

Cyfeiriwyd at achosion o oedi yn benodol fel profiad "poenus" ar ddau achlysur, ac roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â "gwaith papur", yn arbennig wrth geisio cymeradwyaeth Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach).

"Mae'n llawer o waith papur ac mae'n broses hir a phoenus. Roedd angen caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd arnom, gan ein bod ar orlifdir, a chymerodd hynny amser hir i'w ddatrys gan iddynt wrthod ein cynnig i gychwyn a bu'n rhaid inni fynd yn ôl ac ymlaen."

"Roedd yn weddol boenus ond llwyddwyd i gyrraedd y nod yn y pen draw. Roeddynt eisiau cynnal asesiad amgylcheddol o'r ardal y gellid ei gynnal ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig. Ond roedd gennym gyllid gan y llywodraeth ac roedd yn rhaid ei wario erbyn dyddiad penodol felly bu'n rhaid inni drafod llawer i ganfod ateb."

Mewn rhai achosion, bu cyfyngiadau ecolegol yn broblemus lle'r oedd arolygon ecolegol wedi dangos bod rhywogaeth yn bresennol (megis y fadfall gribog) y byddai'n rhaid ei hadleoli yn unol â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Caiff pryderon ynglŷn â chyflymder a manylder y broses benderfynu ynglŷn â thrwyddedau a chaniatâd y tu allan i'r system gynllunio eu hadlewyrchu yn astudiaeth achos Volac. Awgrymodd Volac y bu i ddiffyg adnoddau i reoli'r broses o arfarnu'r trwyddedau amgylcheddol sydd eu hangen i weithredu yn eu lleoliad arafu pa mor gyflym oedd modd iddynt ddatblygu ac ehangu, a bod hyn hefyd wedi creu risg buddsoddi a oedd yn rhwystro penderfyniadau buddsoddi. Mae pryderon tebyg i'w gweld yn astudiaeth achos Charcutier, a deimlai fod Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd ill dau dan ormod o bwysau a bod eu sylfaen wybodaeth yn rhy eang i ddarparu cyngor penodol i fusnesau'r sector bwyd.

Yn gyffredinol, galwai'r ymatebwyr am reolau cynllunio llacach er mwyn ceisio dadwneud costau ariannol ac amser y broses gynllunio bresennol i'r busnes wrth baratoi a gwneud cais.

Cyfathrebu yn y Broses Gynllunio

Pan ofynnwyd i fusnesau a ydynt yn ystyried bod y system gynllunio yng Nghymru yn gefnogol i'r diwydiant bwyd, teimlai wyth o'r 20 ymatebydd nad oedd modd iddynt ymateb am nad oeddynt wedi cael llawer o gyswllt â'u hawdurdod lleol.

"[Dylai'r system gynllunio] siarad gyda busnesau i ddeall anghenion pobl yn y diwydiant. Mae llawer o bobl a hoffai wneud rhywbeth ond... fel busnes bach sy'n cychwyn arni rydych yn cael eich gadael ar eich pen eich hun i fwrw iddi. Does neb byth yn gofyn am adborth i weld beth ydym ei eisiau."

Mae'r sylw uchod mewn gwirionedd yn debyg iawn i'r sylwadau a wnaed gan swyddogion cynllunio a ddwedai y byddai cyswllt rhwng cynllunwyr a busnesau yn fuddiol, er i'r cynllunwyr ddweud yr hoffent i fusnesau ddod ymlaen i ddweud beth maent ei eisiau yn hytrach na gwneud mwy i geisio eu barn.

Dau gwmni yn unig a ddwedodd iddynt dderbyn rhyw lefel o gymorth gyda'r cais gan eu hawdurdod lleol, ac roedd y cymorth hwn yn ymwneud yn benodol â llenwi ffurflenni a chyfeirio'r busnesau at gysylltiadau addas. Roedd hyn o gymorth am ei fod yn "cymryd llai o amser i ganfod â phwy'r oedd angen inni siarad," gan adlewyrchu'r synnwyr cyffredinol o ddryswch ymysg y rhai sy'n mynd drwy'r broses am y tro cyntaf.

Serch hynny, roedd mwyafrif y busnesau yn hytrach yn fwy tebygol o droi at ymgynghorwyr annibynnol, gan deimlo eu bod mewn gwell sefyllfa i roi'r wybodaeth iddynt.

"Nid yw [awdurdodau lleol] yn ymwneud gymaint â hynny â'r cais; peth rheoleiddiol ydyw yn hytrach na gafeael llaw neu ddarparu gwasanaeth ymgynghori. Ni chredaf fod ganddynt yr adnoddau na'r profiad i wneud hynny."

Awgrymodd nifer o'r cyfranogwyr y byddai darparu mwy o wybodaeth mewn amryw ffyrdd yn werthfawr i dwf busnesau, er mwyn trawsnewid y system i fod yn "alluogydd a sbardun twf, yn ogystal â bod yn broses dechnegol i sicrhau bod eiddo yn cael ei ddatblygu'n gyfreithlon" (astudiaeth achos Castell Howell).

Fel a welir uchod, roedd diffygion o ran cyfathrebu a darparu gwybodaeth hefyd yn aml yn cael eu priodoli i ddiffyg adnoddau adrannol.

"Mae cyfathrebu â'r adran gynllunio yn anodd oherwydd toriadau. Rydym wedi cyflwyno cais am ddatblygiad newydd ac ni chawsom unrhyw gyswllt (ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo); nid ddaethant yn ôl atom. Mae'n anodd iddynt am eu bod wedi colli aelodau staff. Bellach, mae'n rhaid ichi fynd drwy ganolfan alwadau i siarad gyda nhw, sy'n iawn yn achos tai neu geisiadau cynllunio bach, ond yn achos ehangu busnesau mwy hoffwn gael rhywun i ymgynghori â nhw."

Er hynny, mae astudiaeth achos Welsh Hills Bakery yn rhoi enghraifft o sut gall Awdurdod Cynllunio Lleol a busnes gydweithio i greu canlyniadau cadarnhaol.

Mae'n ddiddorol na chyfeiriodd busnesau'n amlach at y broses cyn ymgeisio. Nodai'r swyddogion cynllunio fod y broses cyn ymgeisio yn bwysig ac yn gyfle defnyddiol iawn i gynnal trafodaeth anffurfiol ynglŷn â meysydd i'w hystyried yn y cyfnod sy'n arwain at gyflwyno cais cynllunio. Mae Awdurdodau Lleol yn llunio rhestrau gwirio dilysu a ddefnyddir i roi arweiniad i ymgeiswyr ar ba ddogfennau sydd angen eu cyflwyno gyda'r cais. Hefyd, mae Swyddogion Cynllunio ar Ddyletswydd yn aml ar gael i roi cyngor lle y bo'n bosibl. Ni chyfeiriwyd at yr un o'r gwasanaethau hyn yn ystod y cyfweiliadau â busnesau, ond efallai bod y nifer gymharol fach o gyfweleion (n=20) yn yr adran hon wedi cyfyngu ar hyn.



Y Broses Cyn Ymgeisio

Yng Nghymru, ym mhob achos o gais am ddatblygiad ‘mawr’ (llawn neu amlinellol) a gyflwynir ar ôl 1af Awst 2016, y mae’n statudol ofynnol i’r ymgeisydd / datblygwr ymgynghori â’r gymuned ac ymgynghoreion statudol perthnasol, a chyflwyno Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio gydag unrhyw gais (Deddf Cynllunio (Cymru) 2015) (y Ddeddf)). Ar hyn o bryd, mae hyn wedi’i gyfyngu i geisiadau ‘mawr’ yn unig. Bydd ymgysylltu ymlaen llaw yn effeithio ar yr amserlen a’r costau i unrhyw ymgeisydd; er enghraifft, mae’n rhaid i wybodaeth ddrafft y cais cynllunio fod ar gael yn gyhoeddus i gymunedau lleol ei gweld.

Manteision cyflwyno’r ymgynghori gorfodol hwn drwy ddeddfwriaeth yw y dylai ymgeiswyr brofi ymagwedd sy’n fwy cyson ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru a dylai gyflymu’r broses benderfynu.

Nodi Safleoedd Addas

Roedd gwybodaeth dechnegol am safleoedd datblygu addas yn fater arall a nodwyd gan fusnesau. Cyfeiriwyd at fethu â dod o hyd i safleoedd sy'n benodol ar gyfer prosesu bwyd, i ffwrdd o fusnesau eraill a allai draws-halogi bwydydd, a bod yn agos at gyfleustodau a gwasanaethau hanfodol. Teimlai rhai busnesau nad oedd timau cynllunio yn deall gofynion manwl safleoedd gradd bwyd.

Mae'r ffactorau a nodwyd gan saith cyfranogwr fel rhai sy'n effeithio ar ba mor addas yw safle wedi'u disgrifio isod fesul thema:



- Maint ($n = 2$)
 - cyfeiriodd dau at fod eisiau lle i ehangu: *“Lle ar gyfer parcio diogel, digon o le i ehangu a bod modd gosod ffens berimedr ddiogel o'i amgylch”*
- Lleoliad ($n = 6$)
 - cyfeiriodd tri at yr angen am amgylchedd sy'n addas o ran hylendid: *“[Os] yw'r unedau cyfagos yn creu gwastraff cemegol neu fygdarth neu bethau felly ni allwch adeiladu ffatri fwyd wrth eu hymyl. Os ydych yn agos at reilffordd neu ffynhonnell ddŵr gallech gael plâu... Mae llawer o ofynion ynghlwm wrth gynnal safonau bwyd a hylendid bwyd felly mae'n rhaid i'r amgylchedd eich helpu i wneud hynny”*
 - bod yn agos i'r farchnad
 - mynediad at seilwaith traffyrdd ($n = 2$)
- Cyfleustodau ($n = 1$)
 - Gwasanaethau digonol megis dŵr, trydan, nwy a thelegyfathrebu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn astudiaeth achos Volac
- Arall ($n = 3$)
 - ansawdd yr adeilad
 - bod mod addasu er mwyn diogelu at y dyfodol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn astudiaeth achos Halen Môn
 - rhyddhad ardrethi busnes: *“Un o'r prif bethau fyddai edrych ar yr ardrethi busnes; nid oeddem eisiau adeiladau mwy o faint oherwydd y byddai'r ardrethi wedi golygu na fyddai'n hyfyw yn ariannol, yn arbennig mewn ardal newydd.”*

Roedd pryderon ynglŷn ag addasrwydd yn gysylltiedig ag ardaloedd gwledig yn bennaf, lle'r oedd materion "seilwaith, cyflenwad trydan, cyflenwad rhyngwrdd, denu darpar gyflogeion a logisteg gyda chlodwyr trydydd parti" yn fwy tebygol o godi. Teimlwyd y byddai cyngor ar ymdrin â'r materion hyn, efallai wedi'u crynhoi gan gwmnïau eraill, yn werthfawr iawn wrth werthuso potensial safle newydd.

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai cyfeiriadur cenedlaethol neu gronfa ddata canolog o safleoedd gradd bwyd sydd ar gael yn fuddiol iddynt:

"Y broblem fwyaf yw gwybod pa eiddo sydd ar gael ac felly rwy'n credu y byddai rhestr o ba safleoedd a allai fod ar gael yn eithriadol o ddefnyddiol."

"Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gymorth ar gael, ac os oes, ni chaiff gyhoeddusrwydd."

"Cael cofrestr o eiddo sydd ar gael sy'n addas i'r categori gweithgynhyrchu yr ydym ynddo, [yn dangos] ardaloedd lle mae cyfleoedd cyflogaeth posibl, yr adnoddau sydd ar gael... yn ogystal ag ardaloedd lle mae posibilrwydd o amgylchedd heb ardrethi / cymorth ag ardrethi [sydd yn] rhwystro i ehangu ar hyn o bryd."

Yn astudiaeth achos Carmarthenshire Cheese, bu cymorth y Cyngor Sir o gymorth penodol i'r cwmni wrth ddod o hyd i safle. Roedd y safle hwn eisoes wedi'i nodi mewn polisïau cynllunio lleol fel safle sy'n addas i fusnesau amaethyddol, a golygodd hyn mai cymharol syml oedd y broses gynllunio. Dyma un enghraifft o sut gall Awdurdodau Lleol a busnesau gydweithio i gyflawni gwell canlyniadau cynllunio, ond mae hyn yn galw am gyfathrebu addas ac ymwybyddiaeth fusnes o ran y cymorth sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol.

Ddefnyddio iaith Symlach

Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod iaith y broses ymgeisio yn rhy dechnegol, weithiau'n niwlog a gallai fod wedi'i gyflwyno mewn geirfa (leyg) symlach:

"Mae angen ichi fod yn arbenigydd wrth ymgeisio ac yn hytrach na siarad gan ddefnyddio geirfa arferol y byddai pobl gyffredin yn ei deall, (mae'r ffurflenni) wedi'u hysgrifennu gan ddefnyddio jargon sydd y tu hwnt i ddeall unigolion sy'n ceisio cymorth grant. Mae hyn yn troi pobl ymaith ac yn rhwystro buddsoddiad."

"Rwy'n credu ei fod yn ymwneud â deall rhai o'r eitemau a'r rheoliadau sy'n cyd-fynd â'r cais a deall eu hystyr. Fy argraff i o geisiadau cynllunio yw eu bod fel cwestiynau arholiad gydag atebion arholiad; maent yn chwilio am arddull benodol a phetaech yn darparu'r un wybodaeth mewn arddull wahanol efallai na fydddech yn llwyddo. Byddai'n dda cael templed i ddeall yr arddull a'r eirfa y maent yn chwilio amdani."

Mae'r canfyddiad bod geirfa'r cais yn rhy gymhleth yn cyflwyno thema 'ni yn erbyn nhw' sy'n codi drosodd a thro yn y dadansoddiad thematig.

Seiaith

Cyfeiriwyd at seilwaith yn aml fel ystyriaeth yn achos busnesau sy'n ehangu a chadw busnesau presennol i redeg. Er enghraifft, yn ddiweddar bu i Volac (busnes maetheg anifeiliaid rhyngwladol) newid ei gyflenwad ynni i LNG sy'n 'wyrddach' ond gan na all seilwaith y pibellau nwy ymdopi â gofynion nwy y cwmni, maent ar hyn o bryd yn cludo nwy mewn tanceri ar y ffyrdd o Avonmouth a Chaint. Mae angen un tancer y dydd ar eu ffatri. Yn yr un modd, daeth Carmarthenshire Cheese Company i'r casgliad bod angen generaduron arnynt i roi hwb i'w cyflenwad trydan yng Nghanolfan Bwyd Cymru yn Horeb gan nad oedd cyflenwad trydan y safle yn ddigonol i'w hoergelloedd, a dyma oedd un o'r rhesymau y symudwyd o'u safle eu hunain. Cyfeiriodd cwmnïau eraill at y ffaith bod yr angen am gyflenwad dŵr sylweddol, seilwaith gwastraff dŵr a chyfleustodau eraill yn rhwysr i'w gweithrediadau presennol ac yn ffactor sy'n cyfyngu arnynt wrth chwilio am safle newydd. Wrth archwilio p'un a yw safleoedd cyflogaeth yn addas i fusnesau, ac wrth chwilio am leoliadau posibl ar gyfer canolfannau / parciau bwyd newydd, dylid ystyried yr angen am gyflenwad cyfleustodau da a helaeth. A dylid cymryd camau i sicrhau nad yw seilwaith yn rhwysr sylweddol i'r sector Bwyd a Diod ehangu yng Nghymru.

Materion Adeiladu

Roedd un busnes a gyfwelwyd wedi cael trafferth sylweddol gyda gwaith adeiladu, gan nad oedd yr adeilad a godwyd yn diwallu anghenion y math penodol o brosesu bwyd a wneir ar y safle. Yn yr achos hwn, roedd y busnes wedi derbyn cyllid i adeiladu'r safle, ac felly cafodd y gwaith adeiladu ei reoli gan y Cyngor yn hytrach na chan y busnes. Er i'r adeilad gael ei godi gan feddwl am fusnes penodol yn y sector Bwyd a Diod, golygai rheolau cymorth gwladwriaethol, mewn egwyddor, y dylai'r adeilad fod ar gael i'r diwydiant yn gyffredinol yn hytrach nag i fusnes penodol. Yn ymarferol, golygai hyn nad oedd gan y busnes a fyddai'n defnyddio'r safle unrhyw reolaeth dros y broses ddylunio ac adeiladu a neb i droi ato pan nad oedd yr adeilad yn diwallu'i anghenion. Cafodd yr adeilad ei wirio gan lechyd yr Amgylchedd ac ni nodwyd unrhyw broblemau, ac felly ni wyddai'r busnes sut i fynd i'r afael â'r broblem. Dyma'r sefyllfa er y ffaith bod y problemau gyda'r adeilad yn golygu y gweithredai'r busnes ar 30 y cant o'i gapasiti yn unig.

Mae hyn yn codi mater pwysig iawn, sef bod gan fusnesau'r sector Bwyd a Diod anghenion gwahanol iawn o ran dyluniad adeilad yn dibynnu ar natur eu prosesau ac mae'n hanfodol y caiff yr anghenion hyn eu diwallu drwy waith adeiladu. Mae'n bwysig, felly, bod adeilad naill ai'n cael ei adeiladu i safon a fydd yn diwallu anghenion unrhyw fusnes yn y sector Bwyd a Diod (os yw hyn yn bosibl) neu, waeth beth yw ffynhonnell y cyllid, bod y busnes a fydd yn defnyddio'r adeilad yn y pen draw yn cael ei gynnwys wrth ddylunio'r adeilad. Wrth benodi contractwyr, mae'n bwysig bod rhywun yn atebol ac y gellir troi ato os nad yw'r adeilad yn cyrraedd y safonau gofynnol, a bod gwiriad yn ei le i sicrhau bod y safonau gofynnol wedi'u gosod yn y contract.

7. Casgliadau ac Argymhellion

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r prif gasgliadau sy'n codi o'r astudiaeth ac yn darparu argymhellion o gamau y gellid eu cymryd i gynorthwyo'r sector Bwyd a Diod i gyrraedd targedau twf Llywodraeth Cymru. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar brif faterion yr astudiaeth, sef cynllunio a safleoedd, ond y mae hefyd yn cynnwys adrannau sy'n trafod materion eraill a gododd fel rhan o'r astudiaeth ond na ymchwiliwyd iddynt yn benodol.

Y Camau Mawr i Wneud Gwahaniaeth Mawr

Mae'r ymchwil yn awgrymu yn gyffredinol y gallai fod prinder safleoedd gradd bwyd yn hytrach na bod unrhyw ffactorau yn y system gynllunio. Hynny yw, nid yn gyffredinol bod llawer o ffactorau yn ymwneud â chanfod tir neu gael caniatâd cynllunio, ond y byddai'n well gan lawer o fusnesau symud i mewn i safle gradd bwyd 'parod' nag adeiladu eu safle eu hunain. Mae hyn yn ymddangos yn arbennig o wir pan fo busnesau yn cychwyn arni. Mae'n ymddangos y bu'r canolfannau bwyd (e.e. Horeb) a'r parciau bwyd (e.e. Cross Hands) yng Nghymru yn llwyddiannus iawn o ran cynorthwyo busnesau drwy eu camau cyntaf o sefydlu'u busnes, ac mewn rhai achosion drwy ddarparu safleoedd cymharol fawr. Ond mae'r pellter i'r safle yn aml yn ffactor hanfodol o ran p'un a yw'r lleoliadau hyn yn gweithio i fusnes, ac mae'n ymddangos bod diffyg cyfleusterau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru (er bod Parciau Diwydiannol eraill sydd â phresenoldeb cryf gan y sector Bwyd a Diod, e.e. yng Nglannau Dyfrdwy). Y mae awgrym hefyd y gallai seilwaith fod yn rhwystro ehangu ymhellach yn Cross Hands, felly efallai y bydd angen rhagor o safleoedd a lle i'r sector Bwyd a Diod yn yr ardal hon, ond â gwell seilwaith. Hyd yn oed pe gallai busnesau ehangu heb safleoedd gradd bwyd parod, yn ddi-os byddai safleoedd addas mewn lleoliad da yn golygu bod ehangu yn haws ac yn rhatach, felly gallai ehangu'n gyflymach fod yn bosibl.

Dylid nodi y dylid ystyried yr argymhellion isod yng ngoleuni gwaith ymchwil pellach i sicrhau bod galw am yr isod, ac os felly bod y lleoliadau yn diwallu anghenion busnesau'r sector Bwyd a Diod, yn benodol o ran lleoliad, seilwaith trafnidiaeth, cyfleustodau a diffyg halogyddion.

Argymhellion: Datblygu Safleoedd Gradd Bwyd Newydd yng Nghymru wedi'u Hadeiladu'n Bwrpasol

- **Ymchwilio i b'un a allai pob Awdurdod Lleol (neu grwpiau o Awdurdodau Lleol) greu unedau cychwynnol bach** fel y rhai yng Nghanolfan Bwyd Cymru yn Horeb i roi lle i fusnesau newydd ac addawol.
- **Ymchwilio i b'un a allai 'clystyrau' o Awdurdodau Lleol ar y cyd greu parciau bwyd fel yr un yn Cross Hands ledled Cymru.** Gallai'r rhain gael eu dylunio gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn Cross Hands a pharciau diwydiannol eraill, gyda chrynodiad helaeth o fusnesau'r sector Bwyd a Diod. Er enghraifft, wrth sefydlu parciau diwydiannol, dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod capasiti digonol yn y seilwaith i ganiatáu ar gyfer ehangu, gan gynnwys cyflenwad trydan, draenio, cyflenwad dŵr a mynediad, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.
- **Darparu digwyddiadau gweithdai ymgynghori i'r sector Bwyd a Diod i ysgogi cynlluniau ac ystyriaethau ehangu.** Sefydlu rhaglen dreigl o weithdai ehangu i'r sector Bwyd a Diod wedi'i rhedeg gan Awdurdodau Lleol i fusnesau bach i'w helpu i ehangu. Gallai'r rhain gael eu rhedeg drwy bartneriaeth rhwng adrannau datblygu economaidd a chynllunio gyda'r nod o gynorthwyo busnesau i ehangu eu safleoedd presennol heb fynd i lawer o gostau dyfaliadol. Gallai'r gweithdai gwmpasu materion fel caniatâd cynllunio, caniatâd amgylcheddol ac opsiynau cyllido. Gallai Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu deunyddiau safonol ar gyfer y gweithdai hyn i leihau'r galw am adnoddau mewn awdurdodau cynllunio. Pe câi'r gweithdai hyn eu cynnal yn chwarterol, er enghraifft, gallent gynnig cyfleoedd i hysbysu busnesau o ddatblygiadau ac ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol ac annog cydweithio rhwng datblygiadau economaidd a chynllunio. Caiff y manteision hyn eu trafod ymhellach mewn adrannau isod. Gallai'r gweithdai gynnwys elfennau hanfodol eraill yn ymwneud ag ehangu busnes, fel cynllunio busnes, cyrraedd marchnadoedd a chwsmeriaid newydd a logisteg dosbarthu, er enghraifft.

Iaith Gyffredin a Chydweithio

Mae'r adolygiadau desg a'r cyfweiliadau yn awgrymu bod rhai gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r sector Bwyd a Diod yn cael ei ddisgrifio. Yn benodol, roedd gwahaniaethau sylweddol o ran dehongliad o'r hyn mae'r sector Bwyd a Diod yn cynnwys. Ymhellach, roedd yn nodedig bod busnesau a rhanddeiliaid allweddol y sector Bwyd a Diod yn cyfeirio'n aml at y term 'safleoedd gradd bwyd' ac nad oedd hyn yn derm a ddefnyddiwyd gan y cynllunwyr. Mewn cwestiynau dilynol, holwyd detholiad o gynllunwyr ynglŷn â 'safleoedd gradd bwyd' ac o'r chwech a holwyd ni wyddai'r un beth oedd ystyr y term. Yn yr un modd, ni siaradai'r busnesau a gyfwelwyd am safleoedd 'wedi'u neilltuo' na 'hap-safleoedd'.

Argymhellion: Rhoi Ystyriaeth i Wahaniaethau o ran Geirfa rhwng y Sector Bwyd a Diod a Chynllunwyr

- Wrth ddatblygu offer neu ddeunyddiau i gynllunwyr, dylai'r sector Bwyd a Diod gael ei ddiffinio'n glir fel bod cynllunwyr yn gwybod yn glir pa fathau o ddatblygiadau sy'n cael eu trafod. Dylai termau fel 'safleoedd gradd bwyd' gael eu diffinio'n glir a'u hesbonio wrth gynllunwyr fel eu bod yn deall anghenion y sector.
- Dylai dogfennau a gynhyrchir i hwyluso datblygu'r sector bwyd roi ystyriaeth ofalus i'w cynulleidfa wrth benderfynu ar eirfa'r dogfennau.
- Dylai cynllunwyr fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl nad yw busnesau sy'n ymwneud â'r broses gynllunio yn gyfarwydd â'r broses neilltuo a dylid sicrhau y caiff ymgynghoriadau ar Adolygiadau Tir Cyflogaeth, yn benodol, eu cynnal mewn ffordd sydd wirioneddol yn galluogi i fusnesau gael eu cynnwys a rhoi eu barn ar y safleoedd sydd eu hangen.

Roedd gwybodaeth y cynllunwyr a gyfwelwyd am y sector Bwyd a Diod yn eu hardal yn amrywio'n sylweddol, ond thema gyffredin oedd y gallai fod mwy o gydweithio rhwng cynllunwyr, swyddogion datblygu economaidd a'r sector Bwyd a Diod, er mwyn i gynllunwyr ddeall anghenion y sector.

Os yw'r sector Bwyd a Diod eisiau i bolisi cynllunio a'r broses ymgeisio am ganiatâd cynllunio fod yn wirioneddol gefnogol i'w busnesau, dylai'r sector sicrhau bod swyddogion polisi cynllunio yn gwybod beth yw'r sector a sut i'w gefnogi. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau bod adrannau cynllunio yn gwybod am y busnesau yn eu hardal a sicrhau bod y sector yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Argymhellion: Cynyddu Ymgysylltiad y Sector Bwyd a Diod yn y Broses Gynllunio

- Ystyried nodi cynrychiolydd i'r sector i gydlynu ymatebion i ymgynghoriadau ar bolisïau ac Adolygiadau Tir Cyflogaeth, rhoi gwybod i fusnesau am ddigwyddiadau ymgynghori a hysbysu Awdurdodau Cynllunio Lleol o unrhyw brinder safleoedd. Gallai'r cynrychiolydd hwn hefyd gydlynu grŵp o fusnesau'r sector Bwyd a Diod mewn ardal i osod allan yr hyn sydd ei angen arnynt o ran safleoedd.
- Gallai Llywodraeth Cymru hefyd nodi cynrychiolydd i weithredu fel ymgynghorai ar geisiadau cynllunio mawr neu sylweddol yn y sector Bwyd a Diod. Gallai fod y manteision canlynol i hyn:
 - Galluogi Llywodraeth Cymru i lunio rhestr o geisiadau mawr/sylweddol yn y sector Bwyd a Diod a monitro cynnydd. Gallai hyn hefyd helpu i nodi arferion gorau mewn ceisiadau cynllunio y gellir eu rhannu â busnesau eraill yn y sector Bwyd a Diod.
 - Rhoi cyfle i gynrychiolydd y sector wneud sylwadau ar geisiadau i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion a buddiannau'r sector wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Pe bwrir ymlaen â'r cam hwn, gallai fod angen gwaith i awgrymu dros ba drothwyau y cysylltir â'r cynrychiolydd ac y cymerir camau i annog neu ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gysylltu â'r cynrychiolydd pan gaiff cais cynllunio perthnasol ei dderbyn.

- Gellid annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i fod â pholisïau cynllunio hyblyg i gynorthwyo safleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth sydd y tu allan i safleoedd wedi'u neilltuo lle nad oes effeithiau perthnasol, yn seiliedig ar ddull polisi meini prawf. I ryw raddau, y mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn defnyddio'r dull hwn drwy eu polisïau arallgyfeirio gwledig, ond mae Awdurdodau eraill yn fwriadol annog yn erbyn datblygiadau cyflogaeth y tu allan i safleoedd a neilltuwyd. Dylid ystyried yn ofalus a yw'r dull hwn yn angenrheidiol / dymunol yng nghyd-destun nodau i hybu twf economaidd cyffredinol a thwf yn y sector Bwyd a Diod yn benodol.
- Sicrhau bod busnesau'r sector Bwyd a Diod yn ymwybodol o fanteision y gwasanaeth ymgynghori cyn ymgeisio ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Cyngor a rhanddeiliaid â buddiant ar gam cynnar, gan y gall hyn arbed amser ac arian ichi yng nghyfnod eich cais cynllunio.

Dogfennau Polisi Cynllunio a'r Sector Bwyd a Diod

Mae dogfennau polisi cynllunio ar lefelau cenedlaethol a lleol a deddfwriaeth allweddol (e.e. Deddf Llesiant 2015) yn rhoi cefnogaeth gryf i ddatblygiadau a fydd yn annog twf economaidd ac yn darparu cyflogaeth. Ond nid oedd yr un o'r dogfennau polisi a adolygwyd yn cydnabod naw sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Ceir rhywfaint o sylw i'r sector Bwyd a Diod mewn polisïau cenedlaethol a lleol, ond mae hyn yn dueddol o ganolbwytio ar ddatblygu amaethyddol, arallgyfeirio gwledig a pholisïau'n ymwneud â manwerthu bwyd, yn hytrach na phrosesu bwyd. Roedd gan bedwar o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol rai polisïau cefnogol i'r sector, ac nid oedd y rhain hyd yn oed yn darparu polisïau manwl. Testun syndod, efallai, yw nad oes gan Awdurdodau Cynllunio Lleol fel Sir Gaerfyrddin, hyd yn oed, sy'n cydnabod pwysigrwydd y sector Bwyd a Diod ac yn darparu lefel sylweddol iawn o gymorth rhagweithiol i fusnesau Bwyd a Diod, lawer iawn o wybodaeth na pholisïau yn ymwneud â'r sector yn eu Cynllun Datblygu Lleol. Mae data'r cyfweiliadau cynllunio yn cadarnhau gwybodaeth yr adolygiad o bolisïau cynllunio wrth nodi'r diffyg cymorth sector-benodol sydd mewn dogfennau polisi cynllunio, ond eir ymhellach wrth i rai cyfweleion awgrymu na ddylent hybu un sector dros sector arall.

Er mai problemus fyddai dadlau bod un sector yn fwy gwerthfawr na sector arall, dylid nodi y gall Cynlluniau Datblygu Lleol roi cymorth i sectorau sydd o bwysigrwydd arbennig i ardal neu os oes gan sector anghenion penodol, ac maent yn gwneud hynny. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o ddogfennau polisi cenedlaethol a lleol bolisïau penodol sy'n cefnogi'r diwydiant twristiaeth a'r sector ynni. Felly mae cyfle i annog datblygu polisïau sy'n cefnogi'r sector Bwyd a Diod lle y mae'r angen i wneud hynny yn glir, a gall hyn gael ei gyfathrebu wrth swyddogion polisi cynllunio. Ni ddylai hyn olygu hybu un sector dros sector arall, ond adlewyrchu cyfle i annog twf economaidd drwy sicrhau y caiff anghenion y sector Bwyd a Diod eu diwallu neu drwy adlewyrchu gwahaniaeth yn anghenion y sector hwn o gymharu â sector arall (os mai dyma'r achos). Hefyd, y mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau penodol i nodi a chynorthwyo sectorau twf blaenoriaeth ac felly ni fyddai hyn yn gwyro oddi wrth bolisi Llywodraeth Cymru ei hun.

Argymhellion: Ystyried Camau i Gynyddu Cefnogaeth i'r Sector Bwyd a Diod mewn Polisiâu Cynllunio

Cynamserol fyddai casglu bod y diffyg cymharol mewn cymorth penodol i'r sector Bwyd a Diod mewn dogfennau cynllunio yn dylanwadu'n negyddol ar y sector, gan nad oedd tystiolaeth mai dyma'r achos yn yr astudiaeth hon. Ond, o ystyried nad yw'r sector wedi'i ystyried yn fanwl mewn polisiâu cynllunio, y mae'n bosibl nad yw anghenion y sector yn cael eu diwallu, yn arbennig wrth neilltuo tir (gweler isod), ond hefyd wrth ystyried pam y gallai bod angen i fusnes Bwyd a Diod fod wedi'i leoli mewn ardal fwy gwledig, yn hytrach nag ar safleoedd cyflogaeth. Argymhellir felly y cymerir camau i ystyried p'un a fyddai cymorth mwy penodol i'r sector yn fuddiol a phriodol, a ph'un a oes angen polisiâu yn benodol i'r sector oherwydd anghenion penodol y sector.

- Ymgynghori â chynllunwyr Llywodraeth Cymru i ystyried ai priodol a buddiol fyddai cynnwys polisiâu ar y naw sectorau blaenoriaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru.
- Ystyried nodi cynrychiolydd sector i ymateb i ddogfennau ymgynghori ar ddogfennau polisi cynllunio i sicrhau y caiff y sector ei ystyried. Er enghraifft, gallai hyn holi a allai polisiâu sy'n annog yn erbyn hap-safleoedd datblygu fod yn cyfyngu ar y sector Bwyd a Diod. Gallai hefyd annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried y sector yn benodol, yn arbennig os yw'r sector yn bwysig iawn i'w heconomi.
- Ymchwilio i'r potensial i ddatblygu polisi a fyddai'n gwneud y broses o uwchraddio safle diwydiannol presennol i fod yn safle gradd bwyd yn haws o ran cynllunio. Efallai mai prin y mae angen caniatâd cynllunio i uwchraddio fel hyn ac felly nad oes angen gweithredu. Ond os canfyddir, yn dilyn astudiaeth bellach, bod y broses uwchraddio hon yn galw am ganiatâd cynllunio, gallai polisiâu cadarnhaol ei gwneud yn gyflymach ac yn haws i'r sector Bwyd a Diod uwchraddio safleoedd.

Y Safleoedd sydd ar Gael i Fusnesau'r Sector Bwyd a Diod

Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi a neilltuo tir cyflogaeth i bob sector er mwyn ateb y galw. Awgrymodd yr adolygiad polisi a'r cyfweiliadau â chynllunwyr bod cyflenwad mawr o safleoedd cyflogaeth ledled Cymru. Collwyd rhywfaint o safleoedd cyflogaeth i ddatblygiadau tai ac mae hyn yn parhau i fod yn ffactor mewn rhai ardaloedd, ond mae'r twf economaidd cymharol araf wedi golygu mai defnydd araf a wnaed o safleoedd yn gyffredinol ac mae nifer fawr o safleoedd yn parhau.

O ystyried bod nifer fawr o safleoedd ar gael mewn egwyddor, y mae tri chwestiwn allweddol yn codi i'r sector Bwyd a Diod, a chaiff y tri chwestiwn hyn eu harchwilio isod.

1. *A oes safleoedd cyflogaeth wedi'u neilltuo sy'n addas i'r sector bwyd o ran maint, lleoliad, perchnogaeth a darpariaeth seilwaith a gwasanaethau?*



Byddai dechrau gwerthuso addasrwydd a hyfywedd safleoedd cyflogaeth ledled Cymru y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon, ond y mae *rhywfaint* o awgrymiadau bod busnesau mewn *rhai* ardaloedd yn ei chael yn anodd dod o hyd i le i ehangu er y cyflenwad hwn.

Er enghraifft, nododd Adroddiad Monitro Blynnyddol Torfaen y bu i gyn-ffatri Hufen lâ Loseley's ym Mharc Llantarnam, sy'n ffatri fodern 70,000+ troedfedd sgwâr, gael ei chymryd gan weithgynhyrchwr bwyd arall bron yn syth. Mae hyn yn awgrymu bod yno weithgynhyrchwyr sy'n aros am y safleoedd cywir. Wrth gwrs, yn yr achos hwn, daeth safle gradd bwyd parod ar gael, sy'n wahanol iawn i'r ffaith bod tir ar gael i adeiladu safle newydd. Yn yr un modd, meddai rhai o'r busnesau a gyfwelwyd iddynt ei chael yn anodd dod o hyd i safleoedd. Er enghraifft, meddai Charcutier iddynt gael anhawster dod o hyd i safle gradd bwyd pan oeddynt yn gwmni newydd bach. Ond unwaith eto, yn yr achos hwn, roedd y cwmni yn chwilio am safle gradd bwyd parod yn hytrach na thir i ddatblygu arno.

Felly efallai nad prinder tir fel y cyfryw yw'r peth, ond naill ai prinder safleoedd neu brinder tir sy'n diwallu anghenion y sector bwyd. Posiblirwydd arall yw efallai bod tir helaeth ar gael, ond bod ffatri Loseley's yn ddeniadol am ryw reswm arall, megis costau is i wneud y safle'n addas neu seilwaith da.

2. A oes unrhyw beth a fyddai angen ar fusnes Bwyd a Diod mewn safle sy'n wahanol i ddiwydiannau eraill, ac felly'n cyfiawnhau ystyriaeth arbennig mewn Adolygiadau Tir Cyflogaeth (i sicrhau bod safleoedd wedi'u neilltuo sy'n addas neu bod datblygu ar hap-safleoedd yn cael ei gefnogi yn y sector hwn yn y lleoliadau cywir)?

Yn ôl y cyfweiliadau â'r cynllunwyr, ymysg materion eraill, gall cyfleustodau a draenio fod yn ffactorau allweddol i'r sector Bwyd a Diod pan gaiff ceisiadau eu cyflwyno. Yn yr un modd, meddai Carmarthenshire Cheese fod cyflenwad trydan annigonol yn ffactor a ysgogodd y cwmni i ddatblygu safle newydd a symud o Barc Bwyd Cross Hands;



meddai Charcutier y bu oedi yn eu prosiect hwy yn sgil cymhlethdodau ynghylch draenio; ac mewn sgysiau anffurfiol â busnesau, awgrymwyd y gallai capasiti'r rhwydwaith carthffosiaeth fod yn rhwystro datblygu pellach ym Mharc Bwyd Cross Hands. Er y gallai cyflenwad cyfleustodau yn wir fod yn ffactor allweddol i lawer o ddiwydiannau (trydan yn arbennig), efallai bod galw'r sector bwyd am gyflenwad dŵr, draenio a charthffosiaeth yn fwy na rhai diwydiannau eraill.

Yn ychwanegol, mae'r safleoedd sydd eu hangen ar y sector Bwyd a Diod yn aml angen eu datblygu i safonau uchel er mwyn creu safleoedd gradd bwyd (gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, er enghraifft) a sicrhau bod yr adeiladau yn cyrraedd y safonau sy'n aml yn ofynnol gan gadwyni cyflenwi archfarchnadoedd gan y gall archfarchnadoedd alw am safonau uwch na'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Y mae felly'n bosibl bod safleoedd cyflogaeth sy'n addas i ddiwydiannau eraill, yn llai addas i'r sector Bwyd a Diod. Er enghraifft, mae rhai mathau o ddiwydiannau sy'n cynhyrchu gronynnau a allai fynd i mewn i fwyd, gan olygu y gallai lleoli busnes yn y sector bwyd a diod ar rai stadau diwydiannol fod yn amhriodol. Mae gofyn ymchwilio ymhellach i'r mathau hyn o ffactorau.

Felly, yn gyffredinol, nid yw'n eglur p'un a yw anghenion y sector Bwyd a Diod yn ddigon gwahanol i anghenion sectorau eraill i gyfiawnhau ystyriaeth arbennig wrth nodi, gwerthuso a neilltuo safleoedd cyflogaeth. Ond o ystyried, mewn egwyddor, bod ffyrdd y gallai gofynion y sector fod yn wahanol, buddiol fyddai i'r sector fod yn rhan o broses yr Adolygiad Tir Cyflogaeth i sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu.

3. *A yw'r duedd gyffredinol mai prin yw'r defnydd cyflogaeth ar hap-safleoedd yn wir yn achos y sector Bwyd a Diod?*

Yn ôl yr adolygiad o'r ceisiadau, yr awgrym yw bod y mwyafrif o ddatblygiadau'r sector Bwyd a Diod yn cael eu datblygu ar safleoedd cyflogaeth presennol, ond mae hyn yn rhannol am mai estyniadau i safleoedd presennol oedd llawer o'r ceisiadau. Y mae gan y sector nifer o eithriadau nodedig, lle y caiff safleoedd eu datblygu'n aml ar hap-safleoedd, yn benodol:

- **Amaethyddiaeth ddwys a datblygiadau cysylltiedig:** Dangosodd yr adolygiad o'r ceisiadau fod datblygiadau amaethyddol dwys, yn naturiol, wedi'u leoli ar ffermydd. Nodwyd mai datblygiadau fel ffermydd dofednod a safleoedd prosesu cynnyrch llaeth (wedi'u lleoli ar ffermydd) yn aml yw'r rhai sy'n ymddangos eu bod yn cael y rhan fwyaf o drafferth o ran cynllunio, yn rhannol oherwydd eu lleoliad gwledig ac effeithiau yn sgil hynny ar draffig (ar ffyrdd gwledig) a'r amgylchedd. Gall datblygiadau cysylltiedig megis gwaith prosesu bach neu siopau fferm gael eu cydleoli ar y safleoedd hyn.
- **Safleoedd pwrpasol mawr:** Mae ar rai busnesau mawr angen safle pwrpasol mawr i ddiwallu anghenion eu dull o gynhyrchu ac yn canfod nad y lleoliad gorau yw un sy'n digwydd bod ar safle cyflogaeth. Er enghraifft, mae Welsh Hills Bakery wedi'i leoli ar safle a arferai fod yn garej geir.
- **Gwaith prosesu gyda chyfleusterau twristiaeth:** Mae nifer o fusnesau'r sector Bwyd a Diod yn gweld cyfle i gyfuno gwaith prosesu â chyfleusterau twristiaeth. Am resymau amlwg, nid yw stadau diwydiannol yn lleoliad delfrydol i gyfleusterau twristiaeth.
- **Gwaith prosesu y mae angen iddynt fod yn agos at ddeunydd/adnoddau crai:** Er enghraifft, roedd angen i Halen Môn fod yn agos i'r môr am mai anymarferol a drud fyddai cludo dŵr môr i'w brosesu mewn stad ddiwydiannol i mewn ar y tir.

Yn gyffredinol, er bod tuedd yn dal i fod i fusnesau'r sector Bwyd a Diod fod wedi'u lleoli ar safleoedd cyflogaeth, mae'n bosibl bod hyn yn llai cyffredin nag yn achos rhai sectorau eraill, yn arbennig rhai mathau eraill o ddiwydiant.

Argymhellion: Sicrhau bod y Safleoedd sydd ar Gael yn Ateb Galw Busnesau'r Sector Bwyd a Diod

Ar hyn o bryd, y mae nifer o ffactorau ansicr ynglŷn â pha mor addas yw'r safleoedd presennol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflogaeth ac i ba raddau y mae angen safleoedd ar y diwydiant, yn wahanol i safleoedd parod neu gymorth i gael caniatâd ar gyfer datblygiadau ar eu safleoedd eu hunain. Dylai'r camau canlynol fod o gymorth wrth ymchwilio ymhellach a sicrhau bod safleoedd digonol i'r sector yn y dyfodol:

- Cynnal ymarferiad cwsmer cudd yn ymwneud â thri busnes bwyd dychmygol sydd ag anghenion gwahanol o ran safle gradd bwyd. Byddai'r tîm ymchwil yn cysylltu â phob Awdurdod Lleol yn nodi'r anghenion i weld a oes safleoedd addas ar gael, neu gyflenwad o safleoedd cyflogaeth sydd ag amryw gyfyngiadau. Y canlyniad fyddai dealltwriaeth fwy eglur o'r cyflenwad posibl o safleoedd i'r sector Bwyd a Diod yng Nghymru.
- Cynyddu deialog rhwng swyddogion datblygu economaidd a chynllunwyr. Gan sicrhau'n benodol, petai busnes yn cysylltu ag adran datblygu economaidd Awdurdod Cynllunio Lleol neu Lywodraeth Cymru yn chwilio am safleoedd, bod y tîm cynllunio polisi yn cael ei hysbysu o'u hanghenion a chanlyniad eu chwiliad (hynny yw, a oedd unrhyw safleoedd ar gael iddynt). Yn yr un modd, caiff swyddogion polisi cynllunio eu hannog i gysylltu â swyddogion datblygu economaidd a chynrychiolwyr sector Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo neu werthuso safleoedd cyflogaeth.
- Llunio amcanestyniadau economaidd o ofynion tir ar gyfer y sector Bwyd a Diod i fwydo i mewn i Adolygiadau Tir Cyflogaeth. Gorau po fwyaf o wybodaeth sydd ei hangen am y math o safleoedd a'u lleoliad, gan y bydd hyn yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i archwilio pa mor addas yw'r tir sydd eisoes wedi'i neilltuo ganddynt i ddiwallu anghenion y sector.
- Annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i hyrwyddo safleoedd cyflogaeth yn gyffredinol ac i'r sector Bwyd a Diod yn benodol. Mae hyrwyddo safleoedd cyflogaeth yn gyffredinol yn argymhelliad yn Adroddiad Monitro Blyneddol 2015 Merthyr Tudful ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal Wythnos Fusnes Conwy ym mis Tachwedd 2016 i hyrwyddo'r ardal.
- Dylai busnesau'r sector Bwyd a Diod gael eu hannog i gysylltu ag adrannau cynllunio pan fyddant yn chwilio am safleoedd er mwyn cael syniad o b'un a oes safleoedd wedi'u neilltuo a allai ddiwallu eu hanghenion.
- Mae Llywodraeth Cymru a Chynghorau eisoes yn berchen ar rai o'r safleoedd cyflogaeth strategol mawr neu'n cydweithio â buddsoddwyr i ddenu busnesau newydd i Gymru, fel yr wyth Ardal Fenter. Y mae'n debygol y bydd cyfleoedd ar gael i ehangu'r amrywiaeth o safleoedd drwy gydweithio'n agos â Chynghorau i bennu'r math, maint a nifer y safleoedd cyflogaeth arfaethedig a allai elwa o fuddsoddiad pellach er mwyn denu busnesau newydd yn y sector Bwyd a Diod.

Materion Eraill

Cododd nifer o faterion eraill yn ystod y gwaith ymchwil nad oeddynt yn benodol yng nghwmpas yr adroddiad. Rhoddir argymhellion ar y materion hyn isod.

Argymhellion: Materion Eraill

Mae'r argymhellion canlynol yn codi o'r astudiaeth ond nid oeddynt yn rhan o'r ymchwiliad i gynllunio a safleoedd felly y maent wedi'u crynhoi gyda'i gilydd fan hyn.

- Ystyried p'un a oes angen astudiaeth bellach i ymdrin â materion yn gysylltiedig ag unedau dofednod i sicrhau na chaiff Awdurdodau Cynllunio Lleol eu gorfodi i gyhoeddi moratoriwm ar unedau dofednod er mwyn gwarchod dyfrffyrdd
- Pan fo ffrydiau cyllido yn golygu y caiff datblygwyr safleoedd eu penodi gan barti ar wahân i'r defnyddwyr terfynol, rhaid i gamau gael eu cymryd i sicrhau bod y safle yn addas i'r defnyddwyr terfynol. Mae hyn yn cynnwys:
 - y cyllidwr i sicrhau bod y defnyddwyr terfynol yn rhan lawn o'r broses ddylunio a bod ganddynt y gallu i weithredu os nad yw'r datblygiad yn diwallu eu hanghenion
 - yn ddelfrydol, dylai'r datblygwr fod yn atebol drwy gontract i'r cyllidwr a'r defnyddwyr terfynol
 - y defnyddwyr terfynol i ofyn am gael cymeradwyo'r cynlluniau a chael eu cynnwys yn y broses
- Ystyried datblygu astudiaethau achos manylach i ymchwilio i faterion penodol, er enghraifft y materion a gododd wrth ddatblygu safle ar gyfer Carmarthenshire Cheese. Nid hyrwyddo a rhannu arferion gorau fyddai diben hyn, ond cael dealltwriaeth go iawn o'r materion (a) er mwyn eu datrys yn yr achos hwn a (b) datblygu mecanwaith i'w atal rhag digwydd yn y dyfodol.

Casgliad

Yn gyffredinol, er bod angen gwneud gwaith pellach i sefydlu p'un a yw busnesau'r sector Bwyd a Diod yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg lleoliadau a safleoedd addas, gwnaeth yr adroddiad y canfyddiadau canlynol:

- Mae polisïau cynllunio ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol yn gefnogol iawn i ddatblygu economaidd a datblygiadau sy'n darparu cyfleoedd gwaith. Ond, gydag ychydig eithriadau, nid yw'r polisïau yn rhoi cefnogaeth benodol i'r sector Bwyd a Diod a gallant fod yn gyfyngol ar ddatblygiadau gweithgynhyrchu Bwyd a Diod mewn ardaloedd gwledig.
- Mae digonedd o safleoedd cyflogaeth ledled Cymru. Felly nid bodolaeth safleoedd yw'r peth, ond p'un a yw'r safleoedd hynny yn ymarferol ac yn addas i'r sector Bwyd a Diod. Mae'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd wedi'u mapio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, ond nid yw'n glir p'un a fyddai busnesau yn gwybod ble maent.
- Roedd busnesau yn llawer mwy eglur ynglŷn â diffyg safleoedd gradd bwyd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol na diffyg tir i'w hadeiladu. Felly nid yw hyn yn gymaint o fater 'cynllunio' ag ydyw o fater i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a rhanddeiliaid allweddol:
 - adeiladu/cyllido safleoedd newydd a/neu
 - darparu lle i fusnesau'r sector Bwyd a Diod adeiladu eu safleoedd eu hunain mewn lleoliad addas i'r sector (yn arbennig o ran seilwaith) a/neu
 - darparu cymorth i fusnesau'r sector Bwyd a Diod ddod o hyd i safle priodol neu gael caniatâd cynllunio ar gyfer safle y dymunant ddefnyddio.
- Dylid nodi, er i rai busnesau ddweud iddynt gael trafferthion wrth ddod o hyd i safleoedd gradd bwyd gerllaw, ni ddwedodd yr un busnes bod diffyg safleoedd wedi eu rhwystro rhag ehangu am i bob busnes ddweud iddynt adeiladu eu safleoedd eu hunain neu iddynt 'gymudo' i safleoedd eraill fel y rhai yn Horeb. Ond gallai hyn fod am mai cyfweiliadau â busnesau a ddaeth i gyswllt â'r broses gynllunio yn ddiweddar oedd y rhain. Efallai bod nifer fawr o fusnesau sydd heb ehangu oherwydd diffyg safleoedd, ond sydd, o ganlyniad, heb ddod i gyswllt â'r system gynllunio ac felly na ddaethpwyd i gyswllt â hwy fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn.


- Mae mwyafrif y ceisiadau am safleoedd gradd bwyd newydd neu estynedig yn cael eu caniatáu. Gall busnesau'r sector Bwyd a Diod elwa o dderbyn cymorth i fordwyo'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn ymwybodol o fanteision ymgynghori cyn ymgeisio, datrys materion yn ymwneud ag amodau cynllunio cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, paratoi'r dogfennau cywir a hyrwyddo manteision eu cynlluniau i sicrhau y caiff penderfyniad ei wneud yn brydlon a'i fod yn osgoi amodau beichus. Serch hynny, o ystyried y caiff y rhan fwyaf o geisiadau eu caniatáu, gall y broses gynllunio fod yn broblemus o ran oedi a chostau. Ond yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'n ymddangos bod y broses yn atal busnesau rhag ehangu.

Atodiad 1: Newidiadau i Ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol

Mae ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol yn newid yn sgil cyflwyno Deddf a Bil:

1. Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015: Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith ym mis Tachwedd 2015 ac mae'n galluogi paratodau i gael eu gwneud ar gyfer uno a diwygio mewn llywodraeth leol;
2. Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru): Cyhoeddwyd y Bil hwn i fod yn destun ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2015, a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ym mis Chwefror 2016. Ymysg camau eraill, y mae'n cynnig uno sawl Awdurdod Lleol i ffurfio wyth neu naw o awdurdodau lleol (gweler Ffigur A1).

Ffigur A1: Ffiniau Presennol ac Arfaethedig Awdurdodau Lleol



Lluniwyd y map hwn yn Saesneg, ac yn anffodus nid oes modd darparu cyfieithiad Cymraeg.

Gallai effeithiau'r camau uno hyn fod yn bellgyrhaeddol, gan y bydd yn effeithio ar yr ardaloedd y mae llywodraeth leol yn gweithredu drostynt. Mae'r camau uno, er enghraifft yn cynnig uno Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent, Casnewydd a Sir Fynwy i greu Awdurdod Lleol mwyaf Cymru, gyda phoblogaeth o bron i 600,000. Anodd iawn ar hyn o bryd yw rhagweld pa effaith allai'r newidiadau hyn gael ar bolisi cynllunio a datblygu cynllunio.